TGAU

# CBAC TGAU
# Drama

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ........ 1
Strwythur y cymhwyster ........ 2
Asesu ........ 2
Crynodeb o'r Asesiad ........ 2
Trosolwg o Uned 3 ........ 3
Dehongli Theatr ........ 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 3 ........ 4
Uned 3 Canllawiau i Athrawon ........ 5
Profiadau Dysgu ........ 28
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 32

© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Drama wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2027, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Drama a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygiad Arholiad Ar-lein


© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Drama yn cynnwys 3 uned. Cymhwyster llinol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Dyfeisio Theatr | Asesiad ymarferol di-arholiad | 40% |
| **Uned 2** | Perfformiad o Destun | Asesiad ymarferol di-arholiad | 30% |
| **Uned 3** | Dehongli Theatr | Arholiad ar-sgrin | 30% |

## Asesu

### Crynodeb o'r Asesiad

| **Uned 3: Dehongli Theatr**<br>***Arholiad ar-sgrin*: 2 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**72 marc** |
|---|
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, mewn ymateb i destun gosod a thestunau heb eu gweld o'r blaen. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Trosolwg o Uned 3

## Dehongli Theatr

Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC
30% o'r cymhwyster
72 marc

Pwrpas yr uned hon yw:

- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei dylunio, ei datblygu a'i pherfformio drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi eu paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- datblygu sgiliau creadigol dysgwyr, fel actorion, dylunwyr a chyfarwyddwyr, drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- adfyfyrio a dadansoddi gwaith eraill drwy gyd-destun gwaith heb ei baratoi ymlaen llaw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- archwilio – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd. Dylai hyn gynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau a chyd-destunau. Bydd yr archwiliad hwn yn gysylltiedig â'u testun gosod dewisol yn ogystal ag amrywiaeth o gynyrchiadau theatraidd o arddulliau/genres cyferbyniol, cyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol, gweithiau wedi'u creu yng Nghymru neu a ysbrydolwyd gan Gymru, a gweithiau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o awduron, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio theatr fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr, gan gasglu syniadau o amrywiaeth o ffynonellau i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddrama.
- ymateb ac adfyfyrio – mae hyn yn cysylltu â pherfformiadau byw a/neu wedi'u recordio/eu ffrydio'n fyw fel dylanwadau theatraidd posibl ar gyfer y testunau gosod a'r gweithiau heb eu paratoi. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn Uned 3, maent fwyfwy yn gwerthuso ac yn creu ymatebion mwy soffistigedig, yn annibynnol i theatr fyw a/neu wedi'i recordio ymlaen llaw. Mae eu gwerthusiad o waith eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol o'r profiad theatraidd ac yn eu galluogi i ffurfio beirniadaeth effeithiol.

Rhaid i'r testunau a ddewisir ar gyfer Unedau 2 a 3 fod yn wahanol.

| | |
|---|---|
| 3.1.1 | Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio |
| 3.1.2 | Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod |
| 3.1.3 | Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi |


© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 3

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio | 20% |
| AA2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio | - |
| AA3 | Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | 10% |
| AA4 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau | - |


© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Uned 3 Canllawiau i Athrawon

| 3.1 Dehongli Theatr | | |
|---|---|---|
| **Ymhelaethiad o'r Cynnwys** | | **Canllawiau i Athrawon** |
| 3.1.1<br>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio.<br><br>Bydd canolfannau yn dewis **un** o'r testunau gosod isod:<br><br>**Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan** William Shakespeare<br>**Pethe Brau** Tennessee Williams<br>**Bryniau'r Glas-Atgofion** Dennis Potter<br>**Wyneb: Y Ddrama** Benjamin Zephaniah<br>**Llewlanc** Zizou Corder, addasiad Marcelo Dos Santos<br>**Cysgu'n Brysur** Bethan Marlow<br>**Un Bore Mawrth** Alison Carr. | Disgwylir y bydd dysgwyr yn ymdrin ag astudio'r testun yn ymarferol fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr. Gellid defnyddio'r gwaith ymarferol canlynol i gyflwyno'r testun gosod a ddewiswyd, crynhoi testun gosod, cymeriadau a chanolbwyntio ar elfennau penodol yn Uned 3.<br>Isod ceir enghreifftiau o weithgareddau gwersi a allai fod yn ddefnyddiol:<br><br>**Cyflwyno eich testun gosod:**<br>Mae'r wers agoriadol hon yn ddull effeithiol o helpu i ennyn diddordeb dysgwyr a rhoi llwybr creadigol ymarferol i'r testun gosod a ddewiswyd: Dylid cysylltu'r 6 gwrthrych a ddewiswyd â rhyw agwedd ar y ddrama, e.e., thema, cymeriad, digwyddiad. Nid “dyfalu beth yw'r ddrama” yw diben yr ymarfer hwn ond ysgogi trafodaeth a gwaith ymarferol a gaiff ei gysylltu yn y pen draw â'r testun penodol a ddewiswyd gan y ganolfan. Caiff y gwrthrychau eu gosod ar fwrdd a'u gorchuddio cyn i'r dysgwyr fynd i mewn i'r ystafell ddosbarth. Bydd yr athro yn esbonio ei fod am i'r dysgwyr eistedd mewn tawelwch am yr ychydig funudau cyntaf gan edrych ar yr eitemau'n ofalus a meddwl amdanynt. E.e., a yw'r eitemau yn rhai cyfoes neu a allent berthyn i oes wahanol? Pa fath o gymeriad allai fod yn berchen ar eitem benodol? A fyddai'r eitemau yn awgrymu awyrgylch hapus neu drist?<br><br>Caiff cerddoriaeth addas ei dewis, caiff y gwrthrychau eu dadorchuddio a rhoddir amser i'r dysgwyr arsylwi arnynt a meddwl mewn tawelwch. Yna bydd yr athro yn arwain y drafodaeth ac yn holi'r dysgwyr am eu meddyliau a'u syniadau. Dylai'r athrawon gofio ystyried y ddrama wreiddiol, e.e. os mai drych yw un o'r eitemau ac mai *Wyneb* yw'r ddrama a astudiwyd. Gallech ddisgwyl i ddysgwyr gynnig yr awgrym “mae'r ddrama yn sôn am ddelwedd,” fodd bynnag, gallai'r athro |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | ddatblygu'r cwestiynau drwy ofyn cwestiynau allweddol fel, “Pam mae'r drych wedi torri yn eich barn chi”.<br>Mae'r dosbarth wedi'i rannu yn grwpiau (4+) ar gyfer gweithgaredd wedi'i amseru, e.e. 5 munud i eistedd a thrafod llinell stori sy'n gysylltiedig â'r gwrthrychau.<br><br>**Gweithgaredd wedi'i amseru:**<br>Mae'r grwpiau yn trefnu eu llinellau stori yn 6 delwedd, mae'r dosbarth yn edrych arnynt ac yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau, e.e. pam mae cymeriad penodol ar wahân i'r gweddill?<br><br>Mae'r grwpiau yn ailedrych ar eu fframiau ond y tro hwn gallant ychwanegu **hyd at** 6 gair ym mhob ffrâm. Bydd hyn yn eu galluogi i ddewis a meddwl yn ofalus am eu dewisiadau a'u llinellau.<br><br>Ar ôl edrych ar y rhain a'u trafod, mae'r ymarfer wedi rhoi cyfle i gyflwyno'r testun gosod. Os caiff y gwrthrychau hyn eu dewis yn ofalus, bydd y dysgwyr wedi sylwi ar rai syniadau allweddol.<br>Yna dylai'r athrawon roi crynodeb ar lafar o'r testun perfformiad a ddewiswyd, gan gyfeirio at yr eitemau wrth wneud hynny.<br><br>**Gwanedu golygfa allweddol:**<br>Mae hwn yn weithgaredd defnyddiol i helpu dysgwyr i ganolbwyntio'n fanwl ar ddarnau penodol o destun perfformiad, i wanedu'r darn yn fomentau allweddol ac i ganolbwyntio ar agweddau ar symud, y pellter rhwng actorion ac ymwybyddiaeth ofodol gyda chysylltiadau at Uned 3 (Adran A).<br><br>**Amlinellu:**<br>Dewiswch olygfa allweddol o destun perfformiad a ddewiswyd a darllenwch drwyddo gyda'r dysgwyr. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, yn dibynnu sawl cymeriad allweddol sydd yn yr olygfa. Yna bydd pob grŵp yn llunio rhestr, gan rannu'r olygfa i rhwng 5 a 7 adeg allweddol. Yna byddant yn cyflwyno “bwrdd stori” neu ddelweddau llonydd cysylltiedig o'r olygfa a wanedwyd. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhaid i'r dysgwyr ganolbwyntio ar safle pob cymeriad, y defnydd o ofod ac ati. (gallwch ddefnyddio templed o fwrdd stori iddynt ei blotio). Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r drefn rhedeg a'r safle, bydd pob golygfa'n dod yn fyw, heb ddeialog ac mae'r ffocws ar eglurder a manylder y symudiad, e.e. osgo, gofod ac ati. Dylai'r athrawon annog dysgwyr i beidio â chymhlethu pethau, ond i'w gadw'n "lân" a gyda ffocws.<br><br>**Datblygiad:**<br>Gall dod o hyd i eiriau allweddol o'r olygfa a ddewiswyd a'u hychwanegu at bob ffrâm ddatblygu'r ymarfer hwn ymhellach. Dylai dysgwyr ganolbwyntio ar dôn, tempo ac ati.<br><br>Mae hwn yn ymarfer defnyddiol wrth baratoi dysgwyr ar gyfer Uned 3 (Adran A), y cwestiwn gwybodaeth ehangach. Mae'n eu helpu i weithio drwy olygfa gan ganolbwyntio ar y dechrau, y canol a'r diwedd a beth yw'r adegau allweddol.<br><br>**Table - Top Shakespeare:**<br>Complete Works: Table Top Shakespeare Trailer (youtube.com).<br>Dyfeisiwyd y dechneg hon gan y cwmni theatr 'Forced Entertainment', ac mae'n cynnwys defnyddio gwrthrychau pob dydd i ganolbwyntio ar gymeriadau a digwyddiadau mewn darnau penodol ac ymgyfarwyddo â nhw.<br><br>Dylid addasu'r ymarfer hwn ar gyfer unrhyw un o'r testunau gosod fel ffordd o sicrhau bod dysgwyr yn ymgyfarwyddo â chymeriadau penodol, cydberthnasoedd a chrynhoi digwyddiadau.<br><br>**Dod i adnabod cymeriadau:**<br>Mae hwn yn ymarfer defnyddiol i helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth well o gymeriad allweddol, dealltwriaeth o'r testun perfformiad drwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, dealltwriaeth o ddigwyddiadau/cydberthnasoedd penodol yn y testun perfformiad a'u heffaith ar gymeriadau penodol. Bydd hyn yn helpu'r dysgwr i feithrin dealltwriaeth o sut gellir defnyddio gwaith ymarferol yn Uned 3 (Adran |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | A).<br><br>**Dod i adnabod cymeriad: “This is your life”:**<br>Mae'r ymarfer hwn fel gwaith byrfyfyr gyda'r dosbarth cyfan (yn enwedig dosbarth TGAU bach) yn ddefnyddiol, gan nad oes rhaid i'r cymeriadau arwyddocaol adael y llwyfan. Yn hytrach, gellir archwilio'r cydberthnasoedd hynny ymhellach, yn enwedig drwy ychwanegu pobl arwyddocaol eraill ar y llwyfan.<br><br>Esboniwch y cysyniad o “This is your life” i'r dysgwyr (mae clipiau ar gael ar YouTube) yna rhannwch nhw yn grwpiau o rhwng 4 a 6. Bydd pob grŵp yn cael cymeriad penodol o'r ddrama.<br><br>Bydd pob grŵp yn penderfynu pwy fydd y cyflwynydd, y cymeriad y maent yn archwilio ei fywyd a'r cymeriadau eraill sy'n bwysig ym marn y grŵp.<br><br>Bydd pob grŵp yn paratoi gwaith byrfyfyr, pan fydd y cymeriad cyntaf yn cyflwyno amlinelliad byr o fywgraffiad yr ail gymeriad (canolog) mewn trefn gronolegol i'r gynulleidfa.<br><br>Bob tro y sonnir am berson arwyddocaol o orffennol y cymeriad, bydd yn dod ar y llwyfan, wedi'i chwarae gan actorion eraill yn y grŵp, a bydd golygfa fer yn dilyn lle bydd y cymeriad canolog yn cwrdd â'r person arwyddocaol.<br><br>**Datblygiad:**<br>Mae'r ymarfer hwn yn cynnwys llawer o ddadansoddiad manwl o destun a gwneud tybiaethau rhesymol a gwybodus ar sail yr hyn rydych wedi'i ddysgu o'r testun. Er enghraifft, mae gan bob cymeriad fam ond sut maent yn teimlo tuag ati a sut oedden nhw'n ymddwyn o'i chwmpas?<br><br>Mae hwn yn ymarfer defnyddiol i'r dysgwyr dreulio amser yn cynllunio yn hytrach na chreu'n fyrfyfyr mewn ffordd ffwrdd â hi, am ei fod yn helpu i feithrin dealltwriaeth fanwl o'r ddrama a chymeriadau penodol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dod i adnabod cymeriad: Gorffennol Diweddar, Agos a Phell:**<br>Mae'r grŵp yn gweithio mewn parau: Oherwydd bydd angen treulio swm penodol o amser yn astudio testun yn fanwl er mwyn darganfod ffeithiau am y cydberthnasoedd rhwng y cymeriadau yn y gorffennol, bydd angen i'r dysgwyr gael amser i ymchwilio.<br>Mewn parau, mae'r dysgwyr yn actio'r achlysur diweddaraf i ddau gymeriad gwrdd yn y ddrama rydych yn ei hastudio. Yn ogystal, byddant yn gwneud gwaith byrfyfyr ar achlysur pan wnaeth y ddau gymeriad gwrdd yn y gorffennol agos.<br><br>Yn olaf, byddant yn gwneud gwaith byrfyfyr ar achlysur pan wnaeth y ddau gymeriad gwrdd yn y gorffennol pell. Mae'r senarios ar gyfer y golygfeydd hyn wedi'u cysylltu â straeon cefndir y ddau gymeriad dan sylw.<br><br>**Datblygiad:**<br>Gellid cysylltu'r ymarfer hwn â'r math hwn o gwestiwn:<br>*Disgrifiwch yn gryno y berthynas rhwng **** a **** yn y darn hwn (2).*<br><br>*Esboniwch sut gallai'r ddau actor ddefnyddio llais i gyfleu'r berthynas hon i gynulleidfa (4)* |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.2<br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>adnabod a disgrifio gan ddefnyddio terminoleg drama sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio'r testun gosod a ddewiswyd ganddynt.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>deall sut mae **actor(ion)** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>ddehongli cymeriad (cymelliannau a chydberthnasoedd)<br>rhyngweithio rhwng cymeriadau<br>defnyddio sgiliau corfforol<br>defnyddio sgiliau lleisiol. | **Ymgorffori terminoleg drama mewn gwaith ymarferol:**<br>Dylid ymgorffori dealltwriaeth y dysgwyr o derminoleg drama mewn gwaith ymarferol sy'n gysylltiedig â'r testun gosod a ddewiswyd ganddynt. Gellid defnyddio ymarferion i archwilio sut gall dewisiadau lleisiol gyfleu cymeriad i gynulleidfa, gan sicrhau bod y dysgwr yn ymgyfarwyddo â therminoleg gan ddefnyddio ymarfer penodol.<br><br>Cyflwynwch senario fyrfyfyr i'r dysgwyr yn seiliedig ar ddau gymeriad o'r testun gosod a ddewiswyd ganddynt, er enghraifft, Llewlanc; mae'r Prif Weithredwr yn ffonio Rafi ynghylch ei anallu i ddilyn gorchmynion.<br><br>Rhannwch y dysgwyr yn barau gan roi taflen i bob dysgwr gyda'r 6 llythyren ganlynol: A,B,C,D,E,F.<br><br>Bydd gan y dysgwyr 10 munud i ysgrifennu chwe llinell o ddeialog (bydd pob pâr yn ysgrifennu tair llinell yr un) ond rhaid i bob llinell ddechrau gyda'r llythyren a bennwyd. Pan fyddant wedi ysgrifennu'r ddeialog ac wedi ymgyfarwyddo â hi, bydd angen iddynt ganolbwyntio ar y dôn, y tempo a lefel y sain. Dylai'r athrawon annog dysgwyr i ysgrifennu'r termau hyn fel cyfarwyddiadau llwyfan.<br><br>Recordiwch y senarios fel dramâu radio byr.<br><br>Holwch y dysgwyr a yw'r dewisiadau lleisiol a wnaed ganddynt yn cyfleu hwyliau'r cymeriadau er enghraifft.<br><br>Er mwyn i'r dysgwyr allu deall sut mae actor(ion) yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy ddehongli cymeriad, gallent ddefnyddio sgiliau corfforol. Dylid dechrau gydag archwiliadau ymarferol bob amser sy'n galluogi'r dysgwyr i archwilio eu dehongliad o gymeriad yn greadigol mewn golygfeydd a ddewiswyd. Yna gellid cysylltu eu harchwiliad ymarferol â hen gwestiwn arholiad penodol, y gellid ei drafod ar lafar ac yna ei ffurfioli drwy waith ysgrifenedig. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Amlinellu:**<br>Dylai'r athrawon ddewis dwy olygfa wrthgyferbyniol o'r testun gosod a ddewiswyd. Ceisiwch ddewis darnau eithaf byr a fydd yn galluogi'r dysgwyr i ganolbwyntio ar fanylion.<br><br>Darllenwch a drafodwch y golygfeydd a holwch y dysgwyr. Gallai enghreifftiau o gwestiynau gynnwys:<br>Beth yw naws yr olygfa hon?<br>Ble mae'n digwydd?<br>Beth yw'r gydberthynas rhwng y cymeriadau?<br><br>Rhowch gymeriad gwahanol o'r darn i bob dysgwr.<br><br>**Gweithgaredd ymarferol**:<br>Dylai'r dysgwyr ddod o hyd i ofod a chreu silwét corfforol ar gyfer un o'r cymeriadau yn un o'r darnau a ddewiswyd. Dylent ganolbwyntio ar orliwio'r safle, e.e. osgo, bysedd a safle'r traed. Pan fyddant yn y safle hwnnw dylid gofyn iddynt ystyried pa ran o'i gorff y byddai'r cymeriad yn ei defnyddio i "arwain" pe byddai'n dod i mewn i'r olygfa.<br><br>Bydd y silwét yn "dod yn fyw" a bydd yn symud o amgylch y gofod, gan symud ac arwain â'r rhan o'r corff a ddewiswyd. Gallai'r athrawon holi'r dysgwyr gyda chwestiynau fel<br>pam dewiswyd rhan benodol o'r corff ar gyfer cymeriad penodol?<br><br>Datblygwch ffordd o feddwl drwy ofyn i'r dysgwyr feddwl am 2 air penodol i ddisgrifio'r symudiad e.e. caled a bregus. Bydd dysgwyr yn symud mewn ffordd sy'n tynnu sylw at y geiriau a ddewiswyd. G<br><br>Dylai'r athrawon roi lleoliadau penodol er mwyn cadw ffocws dysgwyr e.e. mae'r cymeriad yn mynd i mewn i glwb nos, cyfweliad, mae'n eistedd yn cael diod gyda ffrind.<br><br>Cwestiwn posibl gan yr athro: |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>deall sut mae dylunydd yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>wisgoedd, gwallt a cholur<br>goleuo<br>sain<br>set a phropiau<br>defnydd o'r llwyfan gan gynnwys:<br>bwa proseniwm<br>theatr gylch<br>ymwthiol<br>traws. | Sut byddent yn disgrifio cymhelliant eu cymeriad wrth symud mewn ffordd benodol?<br>Mewn parau/grwpiau, byddant yn byrfyfyrio un o'r golygfeydd a ddewiswyd gan ddechrau gyda silwét o'r cymeriad ac yn ymgorffori eu syniadau ar gyfer ei symudiadau a'i ystumiau i nodweddion corfforol y cymeriad.<br><br>Gellid byrfyfyrio'r olygfa i ddechrau gan ganolbwyntio ar symudiad yn unig. Dylid ailadrodd yr ymarfer gyda'r ail olygfa, gan gymharu'r symudiad ym mhob golygfa a beth mae'n ei gyfleu i gynulleidfa.<br>Bydd y math hwn o ymarfer hefyd yn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng cymeriadau. Er enghraifft, os bydd symudiad un cymeriad yn galed ac yn fregus a bod symudiad y cymeriad arall yn feddal ac yn wlanog, sut gallai hynny effeithio ar y rhyngweithio?<br>Gellid cysylltu archwiliad ymarferol y dysgwr â hen gwestiynau arholiad er enghraifft:<br>**Cwestiynau sy'n gysylltiedig â symudiad:**<br>*Fel actor sy'n chwarae rhan ***, disgrifiwch sut byddech chi'n mynd ymlaen i'r llwyfan ar ddechrau'r darn hwn. Yn eich ateb, cyfeiriwch at symudiad ac ystum (2).*<br>*Rhowch ddau reswm dros eich awgrymiadau (2).*<br><br>*Fel actor, nodwch un symudiad, un ystum ac un mynegiant wyneb y byddech yn eu defnyddio i gyfleu cymeriad **** i gynulleidfa (3).*<br>*Rhowch resymau dros eich awgrymiadau (2).*<br><br>*Esboniwch sut gallai'r actor sy'n perfformio ****** ddefnyddio sgiliau corfforol i gyfleu'r cymeriad i gynulleidfa yn y darn hwn, a rhowch resymau dros eich syniadau. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:*<br>*Cymhelliant y cymeriad*<br>*Osgo a symudiad*<br>*Ystum*<br>*Mynegiant wyneb (12).* |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Dylunio**<br>Dylai'r dysgwyr fod yn gyfarwydd â'r pedwar prif fath o lwyfan (bwa proseniwm, theatr gylch, ymwthiol a thraws). Dylent fod yn ymwybodol o safle'r gynulleidfa, llinellau golwg, y prif ardaloedd a fyddai'n cael eu defnyddio wrth ddylunio ar gyfer llwyfan penodol, yr arddull dylunio y gellid ei archwilio, er enghraifft, dyluniad naturiolaidd gyda llwyfan bwa proseniwm.<br>Rhagwelir, drwy archwiliad ymarferol yn Unedau 1 a 2 y bydd dysgwyr yn gyfarwydd â'r modd y mae pob un o'r llwyfannau gwahanol yn effeithio ar y dylunydd, yr actor a'r gynulleidfa.<br>**Archwiliad ymarferol o'r mathau o lwyfannau:**<br>Mewn parau/grwpiau dylai'r dysgwyr ddarllen golygfa agoriadol y ddrama a llwyfannu eu syniadau cychwynnol ar gyfer yr olygfa agoriadol.<br><br>Dylai'r athrawon ofyn iddynt:<br>Ble roedd y gynulleidfa?<br>A oedd unrhyw bropiau neu ddodrefn yn cael eu defnyddio? Os felly, pam?<br>Dylai dysgwyr restru yr hyn y gwnaethant ei ddarganfod am y cymeriadau.<br>Yna dylent ddarllen yr olygfa eto, gan nodi tri pheth ar y sgript, cymhelliant cymeriadau, safleoedd cymeriadau a symudiadau cymeriadau.<br><br>Dylai dysgwyr ddefnyddio uwcholeuwyr neu bennau lliw gwahanol ar gyfer pob un o'r pwyntiau uchod wrth iddyn nhw fynd drwy'r sgript.<br><br>Bydd dysgwyr nawr yn llwyfannu'r un darn mewn theatr gylch heb ddefnyddio unrhyw ddodrefn, yna ei lwyfannu ar lwyfan traws.<br><br>Trafodwch y gwahaniaethau rhwng pob llwyfaniad.<br><br>Drwy wneud y gweithgaredd hwn, dylai disgyblion ddechrau gweld sut mae'r ddynameg rhwng y cymeriadau'n newid gyda siapiau llwyfan |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | gwahanol. Dylai'r math o lwyfan fod yn fan cychwyn i weithgareddau dylunio.<br><br>**Gweithgaredd ymarferol:**<br>Dylai athrawon ddewis darn byr o agoriad y testun gosod a ddewiswyd. Tynnwch unrhyw gyfarwyddiadau llwyfan, gan adael y ddeialog yn unig.<br><br>Dewiswch un o'r 4 prif fath o lwyfan. Mewn parau/grwpiau rhowch amser i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r darn (cyfeiriwch at yr ymarfer uchod) a phenderfynwch ble y mae wedi'i leoli.<br><br>Yna bydd dysgwyr yn llunio cynllun llawr ar gyfer yr olygfa, gan nodi achosion o gyrraedd a gadael y llwyfan. Yna byddant yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol gan greu darlun cyflawn o'u syniadau.<br><br>**Set:**<br>Arddull set e.e. naturiolaidd; gwrthnaturiolaidd; mynegiadol; minimalaidd; haniaethol neu arddull arall. Unrhyw gynnwys set arall fel dodrefn, fflatiau, grisiau, lloriau, lefelau, ffenestri ac ati<br>Unrhyw beth dros y llwyfan. Lliw? Gweadau? Pa bropiau sydd eu hangen?<br><br>**Goleuo:**<br>Lle mae'r olygfa wedi'i lleoli?<br>Sut awyrgylch sydd ar ddechrau, canol a diwedd yr olygfa?<br>Ble mae'r golau wedi'i leoli ar y math o lwyfan rydych chi wedi'i ddewis?<br>Oes angen lliw yn yr olygfa?<br>Oes angen unrhyw gobos/tafluniadau arnoch ar gyfer yr olygfa? Oes angen i chi ddefnyddio tarth?<br>A yw'r LX yn newid o ddechrau'r darn hyd at y diwedd?<br>Oes angen amlygu unrhyw gymeriad neu ran o'r set?<br><br>**Sain:**<br>Mae dyluniad sain yn golygu unrhyw sain nad yw'n cael ei greu'n fyw ar lwyfan. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Effeithiau sain, e.e. gwynt, glaw, radio yn chwarae ar y llwyfan.<br>Tansgor – cerddoriaeth yn y cefndir mewn golygfa. Seinlun – creu sain a allai chwarae drwy gydol y ddrama neu ar adegau arwyddocaol.<br>Nid yw defnyddio llais yn cael ei ystyried yn SFX oni bai ei fod wedi'i wneud ar feicroffon i greu effaith benodol.<br><br>**Gwisgoedd:**<br>Dylai'r gwisgoedd gyd-fynd â'r holl gysyniad, er enghraifft, os bydd y dysgwyr yn penderfynu bod dyluniad eu set yn adlewyrchu'r 1940au, dylai'r gwisgoedd adlewyrchu hyn hefyd.<br>Gallai gwisgoedd fod o un cyfnod neu'n eclectig.<br>Dylai gwisgoedd adlewyrchu'r cymeriadau yn y darn.<br>Mae'r lliw a'r math o wisg yn hanfodol.<br>Ffabrig – cofiwch am y cyfwisgoedd a'r esgidiau.<br>Dylai'r gwallt adlewyrchu'r cymeriad – steil a lliw.<br>Dylai'r colur adlewyrchu'r weithred yn y darn a'r cymeriad.<br><br>Diben yr ymarfer hwn yw annog y dysgwyr i<br>fynegi eu syniadau dylunio eu hunain yn greadigol a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r<br>elfennau allweddol a'r derminoleg allweddol sy'n gysylltiedig â'r dyluniad.<br><br>Dylech annog dysgwyr i gadw nodiadau o'u syniadau ac arbrofi â llwyfannau, syniadau dylunio a darnau gwahanol drwy gydol y cwrs.<br>Pan fydd y dysgwyr yn hyderus, dylech gyflwyno<br>cwestiynau TGAU dylunio, er enghraifft:<br><br>*Disgrifiwch sut byddech chi'n llwyfannu'r darn hwn ar gyfer perfformiad o *****.  Yn eich ateb, cyfeiriwch at:*<br>*Lwyfaniad cyntaf y cynhyrchiad gwreiddiol*<br>*Eich dewis llwyfan*<br>*Arddull y cynhyrchiad*<br>*Set a phropiau*<br>*Y rhesymau dros eich dewisiadau (12)* |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Ymarferion estynedig:**<br>Bydd pob pâr/grŵp yn paratoi model o ddyluniad eu set gan ddefnyddio math gwahanol o lwyfan.<br>Dylid annog dysgwyr i baratoi bwrdd naws o'u syniadau creadigol.<br>Gadewch i ddysgwyr “farcio” dyluniad eu set gan ddefnyddio cadeiriau i gynrychioli gwrthrychau gwahanol ar eu set fel eu bod yn ymwybodol o linellau gweld, safle'r gynulleidfa ac ati.<br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn gyfarwydd â gwaith dylunwyr presennol i helpu i ddatblygu ac ysbrydoli eu syniadau creadigol eu hunain er enghraifft:<br>59 Productions.<br>Es Devlin: The Lehman Trilogy: The Crucible / Y Crochan.<br>Bunny Christie: CuriousIncident: People, Places and Things: The RedBarn: Ink.<br>Tom Piper: Macbeth.<br>Miriam Buether: Stranger Things.<br>Mark Henderson: Enron: Gypsy.<br>Nodwch: Dylai'r cwestiwn dylunio ganolbwyntio ar:<br>Dim ond yr elfennau dylunio a nodir yn y cyfarwyddyd.<br>Ni ddylai ganolbwyntio ar safle cymeriadau oni fydd y cwestiwn yn nodi safle cymeriadau yn benodol.<br>Dylai eu syniadau dylunio adlewyrchu'r darn a ddewiswyd gan CBAC (cwestiynau 1-3) neu'r darn a ddewiswyd ganddynt (C4).<br><br>**Gwersi i ganolbwyntio ar syniadau dylunio penodol fel:**<br>Gwybodaeth fanwl iawn am sut gellid defnyddio ******** i gyfleu ystyr.<br>Cyfeiriadau hynod briodol at y darn hwn.<br>Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd priodol iawn o derminoleg drama.<br><br>Ni waeth pa agwedd ar ddylunio y mae'r cwestiwn yn canolbwyntio arno, mae angen ymateb “manwl iawn” ar gyfer band 5. Gellid datblygu'r syniadau canlynol yn sawl gwers a fyddai'n galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar syniadau dylunio penodol.<br>**Sain a Cherddoriaeth:**<br>Enghreifftiau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â sain a cherddoriaeth: |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Mewn grwpiau o bedwar, bydd dysgwyr yn recordio seinlun, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer golygfa agoriadol eu testun gosod. Byddant yn penderfynu pryd caiff ei chwarae a byddant yn cofnodi eu syniadau gan ddefnyddio taflen giwiau. Bydd angen i ddysgwyr benderfynu lle dylai raddol gryfhau a phylu, lefel y sain ac ati. Bydd hefyd angen i ddysgwyr esbonio eu rhesymau dros ddewis eu seinlun penodol, er enghraifft, i helpu i greu awyrgylch, lleoliad, amgylchedd neu gyfnod y ddrama.<br><br>Mewn parau, bydd dysgwyr yn ymchwilio i bedwar darn o gerddoriaeth neu ganeuon cyfoes y gellid eu defnyddio ar gyfer pedwar darn. Byddant yn penderfynu pryd cânt eu chwarae ac yn cofnodi eu syniadau gan ddefnyddio taflen ciwiau. Bydd angen iddynt benderfynu lle dylai raddol gryfhau a phylu, lefel y sain ac ati. Bydd hefyd angen i ddysgwyr esbonio eu rhesymau dros ddewis eu seinlun penodol, er enghraifft, i helpu i greu awyrgylch, lleoliad, amgylchedd neu gyfnod y ddrama.<br><br>Mewn parau, rhoddir cymeriad penodol o'r testun gosod i ddysgwyr a byddant yn penderfynu ar ddarn o gerddoriaeth neu gân y gellid ei ddefnyddio/defnyddio fel “thema'r” cymeriad. Bydd angen iddynt benderfynu pryd byddai'n briodol i chwarae'r gerddoriaeth ac esbonio'r rhesymau dros eu dewisiadau.<br><br>Mewn parau, rhoddir amrywiaeth o ddarnau byr i ddysgwyr o'r testun gosod. Byddant yn dod o hyd i'r effeithiau sain. Yna bydd dysgwyr yn penderfynu pryd caiff yr effeithiau sain eu chwarae ac yn cofnodi eu syniadau gan ddefnyddio taflen ciwiau. Bydd angen iddynt benderfynu lle dylai raddol gryfhau a phylu, lefel y sain ac ati. Bydd hefyd angen i ddysgwyr esbonio eu rhesymau dros ddewis eu seinlun penodol, er enghraifft, i helpu i greu awyrgylch, lleoliad, amgylchedd neu gyfnod y ddrama.<br><br>Cwestiynau y gellid eu cynnig i ddysgwyr:<br>*Disgrifiwch ddwy effaith sain addas y gallech eu defnyddio yn yr adran hon (2).* |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>deall sut mae **cyfarwyddwr** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy'r canlynol:<br>dehongli cymelliannau cymeriad a chydberthnasoedd<br><br>defnyddio technegau ymarfer<br>yr arddull perfformio a ddewiswyd<br>yr arddull dylunio a ddewiswyd<br>y dewis o lwyfan gan gynnwys:<br>bwa proseniwm<br>theatr gylch<br>ymwthiol<br>traws.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol y perfformiad gwreiddiol o'r testun gosod. | *Rhowch ddau reswm pam byddai'r effeithiau sain rydych chi wedi'u dewis yn helpu cynulleidfa i ddeall awyrgylch y darn (4).*<br><br>Nodwch: Mae'r clip canlynol yn adnodd defnyddiol i esbonio pwysigrwydd<br>sain mewn theatr: https://www.youtube.com/watch?v=MGtX9P8gDI8<br><br>**Propiau:**<br>Yn aml, bydd dysgwyr yn anghofio sôn am bropiau mewn cwestiynau sy'n canolbwyntio ar ddylunio. Mae'r clip canlynol yn tynnu sylw dysgwyr at bwysigrwydd ac<br>arwyddocâd propiau mewn drama:<br>Adam Savage Examines the Props of Hamilton! (youtube.com).<br><br>Mae'r wybodaeth ganlynol hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr ei darllen ac i feithrin<br>dealltwriaeth o sut gellir defnyddio propiau mewn perfformiad.<br>Gellid rhannu hyn â dysgwyr:<br><br>Eitemau llaw yw propiau fel arfer, a gaiff eu defnyddio neu eu dal gan actorion ar y llwyfan er mwyn gwneud y ddrama'n fwy realistig. Mae propiau yn arbennig o bwysig os yw eich set yn finimalaidd am eu bod yn gallu helpu i gynnig ymdeimlad o leoliad, er enghraifft gall bwrdd awgrymu nifer o leoliadau dim ond drwy newid y propiau: gall dau gwpan coffi awgrymu caffi, ond drwy osod dau wydr gwin yn eu lle, gall awgrymu bar.<br><br>Gall propiau hefyd helpu i ddangos dyfnder cymeriad mewn ffordd syml ond effeithiol. Drwy ddefnyddio propiau mewn ffordd symbolaidd, gallwch greu delweddau grymus a dwys ar gyfer eich cynulleidfa. Gall propiau hefyd helpu i bennu cyflymder drama.<br><br>Cwmni theatr yw Splendid Productions sy'n defnyddio set finimalaidd ond sy'n dibynnu ar bropiau i greu sawl lleoliad a chymeriad gwahanol yn effeithiol. Mae hefyd yn defnyddio propiau i greu naws ac awyrgylch. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Gallai dysgwyr wylio'r clip hwn a nodi pa bropiau sydd wedi'u dewis a sut maen nhw'n cael eu defnyddio: [Trailer for Splendid Productions' 'Woyzeck' on DVD (2015) (youtube.com)]<br><br>Gweithgareddau a allai wella dealltwriaeth o'r defnydd o bropiau:<br><br>Mae dysgwyr yn gweithio mewn parau/grwpiau ac yn cael darnau byr o'r testun gosod ac yn llunio rhestr o ba bropiau y byddent yn eu defnyddio a pham byddent yn eu defnyddio. Yna byddant yn ysgrifennu disgrifiad o'r prop i egluro'n union beth maent am ei ddefnyddio.<br><br>Mae dysgwyr yn gweithio mewn parau/grwpiau ar olygfa benodol ac yn cael cymeriad penodol o'r olygfa. Maent yn dewis 2 brop ar gyfer eu cymeriad; mae'r olygfa'n cael ei chyflwyno ddwywaith a phob tro mae'n rhaid i'r cymeriad ddefnyddio'r propiau mewn ffordd wahanol i gyfleu ystyr gwahanol i gynulleidfa. Er enghraifft, gallai Laura yn 'Pethe Brau' afael yn un o'i hanifeiliaid gwydr yn dynn. Mae hyn yn cyfleu i'r gynulleidfa fod yr anifeiliaid gwydr hyn yn rhoi cysur iddi, neu gallai eu dal yn ysgafn ar gledr ei llaw i ddangos eu bod yn ganolbwynt i'w byd.<br><br>**Gwisgoedd:**<br>Gweithgareddau a allai wella dealltwriaeth o'r defnydd o wisgoedd:<br>Mewn parau, rhoddir cymeriad penodol i ddysgwyr o ddarn o'r testun gosod. Maent yn ysgrifennu disgrifiad manwl o wisg, gwallt a cholur y cymeriad a, gan ddefnyddio Llwyfan Traws, maent yn cyflwyno eu syniadau. Un dysgwr fydd y cymeriad, yn "modelu'r" wisg, a'r llall fydd y sylwebydd, yn disgrifio'r wisg i weddill y grŵp.<br>Bydd dysgwyr yn cael y cwestiwn hwn i'w ystyried yn union ar ôl yr ymarfer.<br><br>*Awgrymwch wisg, gwallt a cholur addas ar gyfer **** yn y darn hwn (4). Rhowch ddau reswm pam byddai'r wisg, y gwallt a'r colur rydych chi wedi'u dewis yn helpu'r gynulleidfa i ddeall cymeriad ***** yn y darn hwn. (4).* |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae hwn yn glip defnyddiol i ddysgwr ei weld er mwyn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o sut gall manylyn ar wisg cymeriad gyfleu ystyr penodol i gynulleidfa: https://www.youtube.com/watch?v=x3hYpIwDoQA<br><br>**Cyfarwyddwr:**<br>Dylid archwilio rôl y cyfarwyddwr ar y cyd â rôl yr actor, er enghraifft, dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd â dewis o dechnegau ymarfer y gallai cyfarwyddwr eu defnyddio gydag actor wrth archwilio cymeriad penodol. Enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yw:<br>Cadair goch<br>Rôl ar y Wal<br>Ymarferion Statws<br>7 lefel o densiwn<br><br>Nodwch: Gall canolfannau ystyried amrywiaeth o dechnegau gwahanol, yn hytrach na dim ond defnyddio un.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o pam byddai cyfarwyddwr yn dewis techneg benodol a sut gallai'r dechneg honno helpu'r actor i ddeall cymeriad ar adeg benodol yn y ddrama.<br><br>**Cyfarwyddwyr a chydberthynas ofodol:**<br>Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd â'r term 'cydberthynas ofodol'.<br><br>Mae hyn yn cyfeirio at y gydberthynas rhwng yr actorion yn y gofod perfformio. Mae hefyd yn cyfeirio at y gydberthynas rhwng yr actor a'r cyfarpar llwyfan a'r set yn y gofod perfformio. Rôl y cyfarwyddwr yw penderfynu ar yr uchod.<br>Bydd yn rhaid i'r cyfarwyddwr benderfynu sut i ddefnyddio'r gofod, maint y set a chyfarpar y llwyfan a pha rannau o'r gofod fydd yn diriogaeth yr actorion. Mae hefyd yn werth ystyried safle'r gynulleidfa wrth gwrs, e.e. pa mor agos ydynt at y llwyfan.<br>Bydd y penderfyniadau hyn yn hanfodol yn ystod y cyfnod ymarfer pan fyddant yn blocio'r cynhyrchiad ac yn ystod trafodaethau'r cyfarwyddwr â'r dylunwyr. **Her** y cyfarwyddwr yw defnyddio'r gofod i'w lawn botensial. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd:**<br>Caiff dysgwyr ddarn byr o'r testun gosod a chânt eu rhannu'n grwpiau yn unol â nifer y cymeriadau yn y darn. Rôl un aelod yw cyfarwyddwr. Bydd pob grŵp hefyd yn cael un o bedwar prif fath o lwyfan.<br><br>Bydd dysgwyr yn ymarfer y darn, gan gydweithio â'r cyfarwyddwr ar achosion o gymeriadau yn cyrraedd a gadael y llwyfan, safle ac ansawdd symudiadau. Bydd y cyfarwyddwr yn gwneud nodiadau byr drwy gydol yr ymarfer.<br><br>Mewn grwpiau bydd y dysgwyr yn trafod y cwestiwn canlynol:<br>*Esboniwch sut byddai cyfarwyddwr yn defnyddio symudiad i gyfleu cydberthnasoedd cymeriadau i gynulleidfa.  Yn eich ateb, cyfeiriwch at:*<br>*Eich dewis llwyfan*<br>*Lleoliad cymeriadau*<br>*Symudiad y cymeriadau*<br>*Y rhesymau dros eich dewisiadau*. |
| 3.1.3<br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>adnabod a disgrifio gwahanol arddulliau/genres perfformio, gan gynnwys:<br>naturoliaeth<br>theatr gerdd<br>theatr gorfforol<br>theatr mewn addysg. | Bydd yr adran hon o'r arholiad yn gadael i ddysgwyr archwilio amrywiaeth eang o safbwyntiau a phrofiadau theatrig dros gyfnod y cwrs. Dylai pob dysgwr deimlo'n hyderus yn mynegi ei farn ynghyd â'i allu i ddadansoddi arddulliau gwahanol o theatr. Mae'n hanfodol na chaiff yr adran hon o'r arholiad ei haddysgu ar wahân – dylai fod yn rhan hanfodol o Unedau 1 a 2.<br><br>Dylai athrawon annog dysgwyr i archwilio amrywiaeth o wahanol arddulliau/genres. Rhaid i'r rhain gynnwys gwaith sy'n cael ei greu yng Nghymru a/neu sydd wedi'i ysbrydoli yng Nghymru, ynghyd â gwaith sydd wedi'i ysgrifennu gan ddramodwyr o Gymru ynghyd â rhai â chefndiroedd amrywiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu nodi prif nodweddion y 4 perfformiad a nodwyd y bydd yr adran hon o'r arholiad yn seiliedig arnynt:<br><br>Naturiolaeth: Perfformiad sy'n cynnwys materion a phynciau bywyd go iawn; mae'r gynulleidfa'n cydymdeimlo â'r cymeriadau; mae'r ddeialog |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>dadansoddi a gwerthuso gan ddefnyddio terminoleg drama sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio darnau heb eu paratoi. | a'r symudiad yn realistig ac yn adlewyrchu'r sefyllfa; gwisgoedd, set, propiau a sain llawn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yn gywir.<br><br>Theatr Gerdd: Cyfuno caneuon, deialog lafar, actio a dawns. Caiff y stori a chynnwys emosiynol eu cyfleu drwy eiriau, cerddoriaeth a symudiad. Mae cerddorion yn adrodd stori sy'n cwmpasu amrywiaeth o emosiynau, sy'n cael eu dwysau fel arfer gan y gerddoriaeth a chaneuon. Fel arfer, mae prif gymeriad a gwrthwynebydd a chorws. Mae'r elfennau dylunio yn tueddu i fod yn eithafol.<br><br>Theatr Gorfforol: Caiff y stori ei hadrodd yn bennaf gan yr actorion yn defnyddio eu cyrff i gyfleu naws, awyrgylch a theimladau. Ceir pwyslais ar ddelweddau a symbolaeth weledol, a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr elfennau actio a dylunio.<br><br>Theatr Mewn Addysg: Mae'r strwythur yn episodig, mae'r cymeriadau'n tueddu i fod yn ystrydebol neu'n wawdluniol i wneud pwynt uniongyrchol i gynulleidfa. Defnyddir elfennau technegol gweledol i bwysleisio neges, e.e., PowerPoint, placardiau, defnydd o set sylfaenol. Fel arfer, mae'r perfformiad yn cynnwys neges ar gyfer cynulleidfa darged benodol.<br><br>Drwy gydol y cwrs, dylid rhoi cyfle i ddysgwyr arbrofi â'r gwahanol arddulliau hyn a dod yn gyfarwydd â'r cymeriadau sy'n gysylltiedig â nhw drwy eu gwaith dyfeisiedig. Er enghraifft, drwy gydol blwyddyn 10 gallai athrawon ddefnyddio'r amrywiaeth o ysgogiadau o hen arholiadau a gallai dysgwyr seilio eu gwaith dyfeisiedig ar yr arddulliau gwahanol hyn.<br><br>Er na fyddant yn penderfynu seilio eu perfformiad terfynol yn Uned 1 ar un o'r 4 arddull hyn efallai, bydd y math hwn o waith yn eu helpu i fagu hyder wrth gydnabod y gwahaniaeth a rhoi'r dechnoleg briodol i ddysgwyr drafod eu gwaith a gwaith eraill.<br>**Nid** oes angen i ddysgwyr weld amrywiaeth o gynhyrchion llawn, ond drwy gydol y cwrs, dylent gael cyfle i weld amrywiaeth eang o ddarnau byr o'r 4 prif genre, sydd i gyd ar gael ar-lein. Dylai'r ganolfan geisio |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>dadansoddi a gwerthuso sut mae **actor(ion)** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>dehongli cymeriad (cymelliannau a chydberthnasoedd)<br>rhyngweithio rhwng cymeriadau<br>defnyddio sgiliau corfforol<br>defnyddio sgiliau lleisiol. | sicrhau bod y dysgwyr yn gweld amrywiaeth o waith gan gwmnïau amrywiol (gweler enghreifftiau isod).<br><br>Dylid rhoi cyfle i ddysgwyr drafod a gwerthuso'r gwaith gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ynghyd â'r ymateb ysgrifenedig ffurfiol, er enghraifft:<br><br>Mae'r dysgwyr yn gweld clip ac yna, mewn parau, maent yn cyflwyno eu safbwyntiau ar yr elfennau actio neu ddylunio, gan ddefnyddio fformat cyfweliad teledu.<br><br>Mae'r dysgwyr yn gweld dau glip o arddulliau gwahanol o theatr. Mewn grwpiau, maent yn cyflwyno "nodwedd celf", lle maent yn trafod yr elfennau gwahanol. Gallai un o aelodau'r grŵp gyflwyno'r nodwedd gydag amrywiaeth o gwestiynau, a gallai'r dysgwyr eraill fod yn feirniaid theatr.  Gellid ffilmio'r cyflwyniad a'i wylio fel bod amrywiaeth o opsiynau'n cael eu cynnig.<br><br>Yn union ar ôl yr ymarfer hwn gellid rhoi cwestiwn o fath arholiad ffurfiol i'r dysgwyr eu cwblhau, er enghraifft:<br>*Edrychwch ar wisg, gwallt a cholur ****.*<br>*Trafodwch ei wisg, ei wallt a'i golur (gallai'r pwyntiau trafod gynnwys math o wisg, arddull, lliw, cyfwisgoedd ac ati).*<br>*Esboniwch sut mae'r wisg, y gwallt a'r colur yn cael eu defnyddio i gyfleu ystyr.*<br>*Pa mor effeithiol yw'r wisg, y gwallt a'r colur yn eich barn chi?*<br><br>**Y ffordd y mae actorion yn cyfleu ystyr:**<br>Drwy gydol y cwrs dylid rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn y grŵp. Dylai hyn fod yn fan cychwyn, er mwyn iddynt fagu hyder yn eu barn eu hunain a'u bod yn cael elfennau allweddol perfformiad i ganolbwyntio arnynt ynghyd â'r derminoleg berthnasol.<br><br>Gallai'r dadansoddiad a'r gwerthusiad fod ar ffurf gwaith ysgrifenedig a llafar. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>dadansoddi a gwerthuso sut mae **dylunydd** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>wisgoedd, gwallt a cholur<br>goleuo<br>sain<br>set a phropiau. | Wrth baratoi dysgwyr ar gyfer yr adran hon o'r arholiad, mae gan ganolfannau'r rhyddid i ddewis eu darnau ar-lein/byw eu hunain o theatr. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael amrywiaeth eang o berfformiadau actio i'w gweld, er enghraifft:<br>Gallai dysgwyr wylio clipiau o'r un cynhyrchiad gan amrywiaeth o gwmnïau:<br>Macbeth/Canolbwyntio ar gymeriadau Macbeth<br>Clip 1 Christopher Eccleston: Macbeth \| Royal Shakespeare Company \| Marquee TV (youtube.com) ( RSC).<br>Clip 2 Tomorrow, and tomorrow, and tomorrow - Scene from The Tragedy of Macbeth (2021) (youtube.com).<br>Clip 3 Macbeth in Welsh (1964) \| BBC Wales (youtube.com).<br>Clip 4 Shakespeare's Macbeth Tara Arts (youtube.com).<br>(Noder: yn yr arholiad, rhoddir clipiau theatr i ddysgwyr).<br>Wrth ateb cwestiynau, dylai athrawon ganolbwyntio ar ofyn cwestiynau penodol ar adran benodol o'r perfformiad er enghraifft:<br>*Dadansoddwch a gwerthuswch sgiliau lleisiol Macbeth ym mhob un o'r clipiau hyn.*<br>Dylai athrawon ddechrau drwy roi clipiau byr iawn i ddysgwyr eu gwylio fel y gallant edrych yn fanwl ar faes penodol, er enghraifft, llais, symudiad.<br>Dylai athrawon sicrhau bod gan ddysgwyr y derminoleg drama angenrheidiol a fydd yn eu galluogi i fframio eu hymatebion.<br><br>**Y ffordd y mae dylunwyr yn cyfleu ystyr:**<br>Fel gydag actorion, dylid fframio'r ffordd y mae dylunwyr yn cyfleu ystyr i ddechrau o fewn eu profiad eu hunain o ddadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd yr elfennau dylunio gwahanol yn eu gwaith eu hunain.<br><br>Gallai gweithgaredd gynnwys:<br>Mewn grwpiau mae dysgwyr yn ymchwilio ac yn cyflwyno i weddill y dosbarth y cwestiynau allweddol am wisgoedd/gwallt a cholur, sain, goleuo, set a phropiau y mae angen i ddylunydd eu hystyried cyn dechrau ar broject dylunio. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Un man cychwyn effeithiol i ddysgwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso dylunio theatr yw canolbwyntio ar ddelweddau penodol. Mae dysgwyr yn gweithio mewn parau ac yn cael meysydd i ganolbwyntio arnynt, er enghraifft, lliw a gwead. Dylai athrawon eu hannog i wneud penderfyniadau ar ba fath o lwyfan a ddefnyddir.  Dylid annog dysgwyr i fynegi eu syniadau'n hyderus, gan wybod bod theatr yn aml yn dibynnu ar ddehongliad yr unigolyn, er enghraifft: Edrychwch ar y ddelwedd isod: |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>dadansoddi a gwerthuso sut mae **cyfarwyddwr** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>ddehongli cymelliannau cymeriad a chydberthynas<br>yr arddull perfformio a ddewiswyd. | <br>*Trafodwch y goleuo a ddefnyddiwyd ar yr adeg hon.*<br>*Trafodwch pa mor effeithiol yw'r goleuo yn y ddelwedd hon yn eich barn chi.*<br><br>Dylid rhoi cyfle i ddysgwyr wylio amrywiaeth o glipiau sy'n canolbwyntio ar wahanol arddulliau/elfennau o ddylunio. Dylid eu hannog i ystyried sut gellid addasu'r dyluniadau wrth ystyried eu syniadau ar gyfer elfen dylunio eu testun gosod (Adran A) a sut maent yn addasu syniadau ar gyfer eu gwaith eu hunain yn Unedau 1 a 2.<br><br>Balcony Scene - Romeo and Juliet - YouTube<br>Romeo and Juliet balcony scene (youtube.com)<br>*Trafodwch ddyluniad y set yn y ddau glip uchod.*<br>*Trafodwch pa ddyluniad sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf effeithiol gan yr actorion.*<br>Er y gall dysgwyr fod yn gyfarwydd â rolau actor a dylunydd, gall fod angen egluro rôl cyfarwyddwr. Mae’r clip hwn yn fan cychwyn defnyddiol: How Do You Become A Theatre Director? \| Life in Stages (youtube.com) |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | |
|---|---|---|
| | | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cyfarwyddwr yn goruchwylio'r holl benderfyniadau o ddewis y maes actio, yr arddull perfformio a'r ffordd y mae'r cymeriadau yn rhyngweithio yn y gofod perfformio, er enghraifft sut defnyddir pellter rhwng actorion i gyfleu cydberthnasoedd i gynulleidfa.<br>Gallai athrawon ofyn i ddysgwyr nodi'r arddull perfformio a ddefnyddir yn y clip byr hwn: THEATRE RE (UK) The Nature of Forgetting (youtube.com).<br>Mewn parau, gallai dysgwyr drafod pam maent yn meddwl bod y cyfarwyddwr wedi penderfynu canolbwyntio ar symudiad yn hytrach na deialog. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| profi amrywiaeth o berfformiad(au) a/neu weithdai proffesiynol, naill ai'n bersonol neu ar-sgrin | **3.1.1 Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio**<br>• Gallai canolfannau ddatblygu cyfleoedd i alluogi dysgwyr i ysgrifennu eu sgriptiau eu hunain, er enghraifft, cystadleuaeth dramodwyr ifanc, y gellid eu hymgorffori yn y cwricwlwm ym mlynyddoedd 7 i 10.<br>• Caiff dysgwyr gyfle i ysgrifennu sgript fer gyda chyfyngiadau penodol e.e. 2-4 cymeriad, llwyfannu minimalaidd.<br>• Caiff 6-8 sgript eu dewis ac mae'r dramodydd yn gyfrifol am gyfarwyddo, castio, ymarfer ac ati. Caiff y broses ymarfer ei goruchwylio gan yr athrawon a dysgwyr Drama blwyddyn 12 sydd yno i roi arweiniad.<br>• Caiff y 6 pherfformiad terfynol eu cyflwyno mewn noson i deulu a ffrindiau.<br>• Mae'r broses hon yn galluogi dysgwyr i ddeall sut caiff dramâu eu datblygu, eu dylunio a'u perfformio.<br>• Dylai canolfannau ddefnyddio'r amrywiaeth eang o ddramodwyr, cyfarwyddwyr a dylunwyr cyfoes sy'n gweithio yn y byd theatr yng Nghymru ar hyn o bryd, er enghraifft:<br>  ◦ Rachel Trezise, sydd wedi ysgrifennu sawl drama ac wedi gweithio'n eang gyda National Theatre Wales.<br>  ◦ Kieran Bailey, sydd wedi gweithio fel actor, cyfarwyddwr cerddorol ac sydd newydd ysgrifennu ei sioe gerdd gyntaf wedi'i lleoli yng Nghymru.<br>  ◦ Rich Tunley sydd wedi gweithio fel cyfarwyddwr ac actor gyda Black Rat Theatre Company.<br>  ◦ Mathilde Lopez, sydd wedi gweithio fel cyfarwyddwr llawrydd ac wedi gweithio'n eang gyda National Theatre Wales.<br>• Bydd cwrdd ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y theatr yn galluogi dysgwyr i feithrin gwybodaeth am y ffordd y caiff dramâu eu llunio, eu datblygu a'u perfformio.<br>• Mae "Theatrau a Chwmnïau Theatr" - Y Cyfeiriadur Cymreig \| Y Lolfa, yn rhoi rhestr gynhwysfawr o gwmnïau a theatrau yng Nghymru y gallai canolfannau eu defnyddio i helpu dysgwyr i fagu profiad o'r theatr. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | |
|---|---|
| | **3.1.2 Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod**<br>• Os na fydd canolfannau'n astudio Shakespeare, gall gwylio golygfa benodol, er enghraifft golygfa'r gwrachod yn Macbeth, o amrywiaeth o gynyrchiadau gwahanol helpu i ddangos i ddysgwyr sut gellir dehongli dramâu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol.<br><br>• 'Dehongli theatr' yw teitl Uned 3 a dylid annog dysgwyr i ddatblygu eu dehongliadau eu hunain o'r testun gosod a ddewiswyd ganddynt.<br><br>• Gellir cysylltu'r ymarfer uchod hefyd ag Adran B wrth iddynt baratoi ar gyfer y clip sydd heb ei weld yn yr arholiad.<br><br>**3.1.3 Sut i adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso gwaith eraill drwy astudio darnau heb eu paratoi:**<br>• Dylai gallu'r dysgwr i adfyfyrio, dadansoddi a gwerthuso gwaith eraill fod yn seiliedig i ddechrau ar ei waith ei hun a gwaith eraill yn y grŵp.<br><br>• Wrth adfyfyrio ar waith eraill ar gyfer y testun sydd heb ei weld, dylid rhoi arweiniad penodol i ddysgwyr ar yr union faes maent yn canolbwyntio arno er enghraifft:<br>    • Nodweddion lleisiol (cyflymder, acen, tôn, saib, distawrwydd, isdestun), nodweddion corfforol (symudiad, iaith y corff, osgo, ystum, mynegiant wyneb, cerddediad)<br>    • Gwisgoedd (cyfnod, arddull, ffabrig, lliw, patrwm, ymddangosiad gwisg, cyfwisgoedd).<br><br>• Dylid rhoi'r derminoleg drama berthnasol i ddysgwyr hefyd.<br><br>• Dylid annog dysgwyr yn gynnar yn y broses o'u paratoi ar gyfer yr elfen hon i drafod eu syniadau ar lafar ac mewn grwpiau. Dylid hefyd eu hannog i gadw cofnod o'u syniadau, er enghraifft, datblygu blog theatr dosbarth o'u hadolygiadau o glipiau penodol.<br><br>• Dylai athrawon annog dysgwyr i ddod o hyd i'w clipiau theatr eu hunain nad ydynt wedi'u gweld ac esbonio i weddill y grŵp pam mae'r elfennau perfformio/dylunio yn effeithiol/aneffeithiol ac ati.<br><br>• Dylai athrawon annog dysgwyr i edrych ar-lein am adolygiadau o gynyrchiadau mewn cyhoeddiadau er enghraifft: The Stage Guardian Review, i helpu i feithrin eu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff cynyrchiadau eu hadolygu, a'r elfennau gwahanol y mae adolygwyr yn canolbwyntio arnynt. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | |
|---|---|
| profi amrywiaeth o rolau – gan gynnwys fel perfformiwr, dylunydd, cyfarwyddwr, cynhyrchydd a rheolwr llwyfan | **3.1.1 a 3.1.2**<br>• Gellid rhannu'r testun perfformiad a ddewiswyd yn rannau a bydd pob grŵp yn gyfrifol am ddatblygu ei ddehongliad ei hun o ran benodol. Mae aelodau'r grŵp yn gyfrifol am ddylunio, cyfarwyddo, perfformio a chynhyrchu'r cynnyrch terfynol. Caiff y perfformiad terfynol ei ffilmio a chaiff pob rhan o bob grŵp ei chyfuno i greu ffilm gyflawn.<br><br>• Bydd pob grŵp yn cyflwyno PowerPoint i'r dosbarth yn amlinellu'r syniadau, y dylanwadau, pam dewiswyd math penodol o lwyfan, lliw, prop, tafluniad, arddull ac ati. |
| magu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol | • Mae Uned 3 yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar y ffordd maen nhw a phobl sy'n creu theatr yn dehongli testunau perfformio. Er enghraifft, rhoddir copi o gyfarwyddiadau llwyfan gwreiddiol agoriad '*An Inspector Calls'* gan J.B. Priestly i ddysgwyr a chaiff hyn ei drafod, gyda dysgwyr yn canolbwyntio ar ddyluniad y set, ac ati.<br><br>• Yn dilyn hyn, bydd yr athro yn dangos clipiau i'r grŵp o gynhyrchiad o 1992 gan Stephen Daldry An Inspector Calls \| UK Tour \| ATG Tickets (youtube.com), a'r ffordd y canolbwyntiodd ar themâu'r ddrama i chwyldroi dyluniad y ddrama a'r cynhyrchiad cyffredinol.<br><br>• Drwy'r gwaith ymarferol a'r gwaith ysgrifenedig sy'n seiliedig ar y testun gosod, dylid annog dysgwyr i roi adborth llafar ac ysgrifenedig i'w gilydd. Drwy alluogi'r dysgwyr i asesu gwaith ysgrifenedig ei gilydd yn seiliedig ar gwestiynau o fath arholiad, bydd yn eu galluogi i ddod yn gyfarwydd â'r cynllun marcio a bydd hyn yn dylanwadu ar y ffordd y byddant yn mynd ati i ateb cwestiynau tariff isel ac uchel. |
| cael cyfleoedd i fentro, creu'n fyrfyfyr a goresgyn heriau creadigol | **3.1.1**<br>• Dylid annog dysgwyr i wylio amrywiaeth o gynyrchiadau gwahanol, yn fyw ac yn ddigidol, a chofnodi sut gellid ymgorffori syniadau dylunio a pherfformio i'w syniadau eu hunain ar gyfer cyflwyno'r testun gosod.<br><br>• Dylai dysgwyr fod yn hyderus yn eu dealltwriaeth o'r 4 prif fath o feysydd actio a'r ffordd y gellir defnyddio elfennau dylunio a pherfformio i gyfleu ystyri i gynulleidfa. Dylid adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon yn glir yn eu gwaith ysgrifenedig. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | |
|---|---|
| cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad cydweithredol | **3.1.1 a 3.1.2**<br>• Er mwyn i ddysgwyr ddod yn gyfarwydd â'r testun o'u dewis, gallent gyflwyno rhannau ohono mewn perfformiad cydweithredol. Gallai dysgwyr gynnwys rhannau o'r testun, gwaith byrfyfyr, symudiad i gerddoriaeth i ddangos y cymeriad, plot a thema.<br><br>• Dyma becyn gwaith gan CCDC i gyd-fynd â'u cynhyrchiad o Macbeth:<br>Saesneg: https://bit.ly/3SwI6oN<br>Cymraeg: https://bit.ly/3UAcJMN.<br><br>• Gallai dysgwyr edrych ar rai o'r syniadau yn y pecyn a chreu eu pecyn adnoddau eu hunain yn seiliedig ar y testun a ddewiswyd ganddynt, er enghraifft:<br>  • Delweddau o olygfeydd a llinellau allweddol sy'n gysylltiedig â nhw.<br>  • Clipiau fideo wedi'u recordio lle mae dysgwyr yn disgrifio cymeriad, ei gymhelliant a sut mae ei gymhelliant yn newid yn eu barn nhw, pa linell o'r ddrama sy'n disgrifio cymhelliant a thaith cymeriad orau. |
| Meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol | **3.1.3**<br>• Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r saith nodwedd warchodedig a'r ffaith ei bod yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig.<br><br>• Mae angen i gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr castio ystyried y nodweddion gwarchodedig a Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>• Gellid rhoi sawl clip i ddysgwyr gydag actorion gwahanol yn chwarae'r un rôl, a thrafod sut mae pob perfformiad yr un mor effeithiol wrth gyfleu ystyr i gynulleidfa.<br><br>**3.1.2**<br>• Gallai dysgwyr ystyried y cymeriadau yn y testun a ddewiswyd ganddynt a thrafod pa gymeriadau y gellid eu cyflwyno yn ystrydebol a sut gallai actor/cyfarwyddwr osgoi hyn mewn perfformiad. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | | | |
|---|---|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | | | |
| | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod Drama yn eu herio i ystyried eu cynefin a'r posibiliadau sydd ganddynt i lywio'r byd lle maent yn byw ac effeithio arno. Drwy astudiaeth amrywiol o destunau dramâu a chrefft theatr, gwahoddir dysgwyr i ymfalchïo yn eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain fel ffordd o gyfrannu'n gadarnhaol at y gymdeithas lle maent yn byw.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | *3.1.2* | *Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | • Mae'r testunau gosod yn Uned 3 yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddewis gwaith sydd wedi'i greu a'i ysbrydoli gan Gymru, neu wedi'i ysgrifennu gan amrywiaeth eang o ddramodwyr a/neu archwilio gwaith gwneuthurwyr theatr o Gymru ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd.<br><br>• Mae gan ganolfannau ryddid wrth ystyried yr elfen dylunio ar gyfer y testunau gosod i'w lleoli yng Nghymru.<br><br>• Gellid rhoi lleoliad Cymreig/lleol i'r holl destunau gosod (heblaw Pethe Brau) y gallai dysgwyr ei ddefnyddio fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu dyluniad. Er enghraifft, gallai'r gerddoriaeth a ddefnyddir yn 'Wyneb' fod gan gerddorion |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfoes o Gymru, gallai ‘Un Bore Mawrth’ fod wedi'i lleoli yn ysgol y dysgwyr.<br><br>Gallai hyn helpu i roi perchenogaeth i'r dysgwyr a gwneud y ddrama yn fwy hygyrch i rai dysgwyr.<br><br>• Yn Adran B y mae angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn rhoi cyfle i ddysgwyr wylio amrywiaeth o theatr gan amrywiaeth o ddramodwyr, actorion a chyfarwyddwyr o Gymru ynghyd â rhai cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>Mae gan theatrau yng Nghymru archif cyfoethog o ddeunydd y gall canolfannau ei ddefnyddio i baratoi dysgwyr at yr adran hon, er enghraifft:<br>• Theatr Sherman – Cynyrchiadau'r Gorffennol \| Theatr Sherman.<br>Mae'r wefan hon yn cynnig clipiau o amrywiaeth o gynyrchiadau gan ddramodwyr, actorion a chyfarwyddwyr o Gymru.<br><br>• Theatr Clwyd<br>Mae amrywiaeth o glipiau byr ar gael a fyddai'n addas i'w harchwilio ar gyfer actio a dylunio, er enghraifft: https://www.theatrclwyd.com/cy/take-part/projects/together/theatre/mold-riots<br><br>• National Theatre Wales<br>Yma cewch amrywiaeth o ddeunydd wedi'i ysbrydoli gan leoliadau, pobl a hanes Cymru, er enghraifft: We're Still Here - educational resource (youtube.com). |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Mae'r cwmnïau hyn yn creu gwaith sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, genres, cyd-destunau a ffyrdd o gyflwyno drama, er enghraifft, gallai dysgwyr wylio clip o 'We're Still Here' a thrafod pa mor effeithiol oedd defnyddio lleoliad safle benodol yn hytrach na'i leoli mewn theatr gyda chefnlen o'r gwaith dur.<br><br>• Mae Adran B hefyd yn galluogi canolfannau i archwilio gwaith gan gwmnïau, dramodwyr a chyfarwyddwyr rhyngwladol, er enghraifft: [Woza Albert (youtube.com).]<br><br>• Er bod y clipiau'n cael eu gwylio o safbwynt actio a dylunio, gall yr adran hon roi cyfle i ddysgwyr archwilio cefndir byr i ddramâu penodol. Er enghraifft, mae 'Woza Albert' a ysgrifennwyd yn 1981 yn ddrama brotest gwrth-apartheid yn Ne Affrica.<br><br>• Rhagwelir y bydd yr amrywiaeth o waith a gaiff ei wylio yn Adran B yn ystod y dosbarth yn effeithio ar weledigaeth y dysgwr ar gyfer ei waith a'i ddewisiadau ei un yn Uned 1 a 2. |


© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><td rowspan="3">Cynaliadwyedd</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynaliadwyedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn ac wrth astudio'r materion hyn, caiff dysgwyr eu grymuso i roi newid ar waith er gwell.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynaliadwyedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.1</td><td>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio</td><td>• Gellid rhoi gwybod i ddysgwyr ei bod yn orfodol i bob theatr gael polisi amgylcheddol, er enghraifft, Environmental Policy - Royal Court (royalcourttheatre.com).<br><br>• Gallai canolfannau ddefnyddio hyn fel man cychwyn i drafod â dysgwyr sut byddai hyn yn effeithio ar ddewisiadau / opsiynau dylunio ar gyfer cynyrchiadau.<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio opsiynau dylunio gwahanol ar gyfer eu testun gosod, er enghraifft, dyluniad set manwl, naturiolaidd a dyluniad set minimalaidd, gan drafod pa elfennau sy'n cael yr effaith amgylcheddol leiaf yn eu barn nhw a'r rhesymau dros hynny.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><td rowspan="3">Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod ein bodolaeth a'n dynoliaeth barhaus yn dibynnu ar gyd-barch a chydgyfrifoldeb i bawb gael eu trin yn deg.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br><br>3.1.2</td><td>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i</td><td>Adran A<br>• Mae'r holl destunau gosod yn delio â chydberthnasoedd; gallai dysgwyr archwilio a yw rhai o'r rolau yn hyblyg o ran rhywedd, a ph'un a fyddai newid rhywedd cymeriadau penodol yn newid ffocws y gydberthynas neu fwriad y dramodydd.<br><br>• Gallent ddefnyddio gwaith byrfyfyr i archwilio darnau byr o'r testun gosod i arbrofi gan ddefnyddio rhyweddau gwahanol ar gyfer cymeriad penodol, a ph'un a fyddai hynny'n effeithio ar gydberthynas / themâu / neges y ddrama.<br><br>• Gellid atgyfnerthu'r ymarfer hwn drwy alluogi dysgwyr i wylio cynyrchiadau lle mae'r prif gymeriad wedi cael ei chwarae gan rywun o rywedd gwahanol, er enghraifft, chwaraeodd Maxine Peake rôl Hamlet: Drama Online - Maxine Peakes Hamlet (dramaonlinelibrary.com).<br><br>(Gellid gwylio hwn a'i drafod fel opsiwn ar gyfer Adran B).</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3.1.3 | gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi | • Gallai dysgwyr hefyd archwilio darnau byr o destun gan ddramodwyr eraill i archwilio sut caiff fersiynau gwahanol o gydberthnasoedd eu cyflwyno mewn dramâu, er enghraifft, gellid cymharu uned teulu 'Pethe Brau' drwy edrych ar olygfa fer o 'All's Fair' gan Frank Vickery ac 'East is East' gan Ayub Khan Din.<br><br>• Gallai dysgwyr edrych ar y nodweddion tebyg a gwahanol rhwng pob un o'r teuluoedd.<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio a yw'r teuluoedd hyn yn cydymffurfio â chysyniad teulu traddodiadol.<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio pob un o'r cymeriadau yn eu testun gosod a dadansoddi a gânt eu cyflwyno mewn ffordd ystrydebol neu a ydynt yn gymeriadau tri dimensiwn. Fel cyfarwyddwyr, gallent roi cyngor i'r actor ar sut i osgoi bod y cymeriadau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd ystrydebol yn unig.<br><br>**Adran B**<br>Bydd yr adran hon yn galluogi canolfannau i archwilio amrywiaeth o weithiau sy'n delio ag amrywiaeth o fathau gwahanol o gydberthnasoedd, er enghraifft: 'Romeo and Julie' gan Gary Owen. Romeo and Julie (National Theatre Collection 3 on Drama Online) \| Clip (youtube.com).<br><br>• Gallai dysgwyr ganolbwyntio ar y ffordd y caiff symudiad, ystum a defnydd o ofod eu defnyddio i gyfleu'r gydberthynas i gynulleidfa. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ‘People, Places, & Things’ gan Duncan Macmillian: [People, Places & Things \| 'I'm already dead' \| National Theatre at Home (youtube.com).](#)<br><br>• Gallai dysgwyr archwilio a yw'r gydberthynas rhwng yr unigolyn sy'n gaeth a'r cynghorydd yn un ystrydebol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><td rowspan="3">Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth mewn TGAU Drama Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod y byd rydym yn byw ynddo yn esblygu'n barhaus a bod gennym gyfrifoldeb a rennir i drin pawb â pharch ac fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.3</td><td>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darn heb ei baratoi</td><td>Bydd y prif faes yn Uned 3 lle gall canolfannau ymgorffori Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth i'w haddysgu yn Adran B.<br><br>• Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o gwmnïau yn y DU sy'n creu gwaith sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u diwylliannau. Y man cychwyn ar gyfer ymchwilio yw ymchwil annibynnol.<br><br>• Er enghraifft, mewn parau, rhoddir cwmni/cyfarwyddwr/actor penodol i'r dysgwyr ymchwilio iddo. Byddant yn gwneud cyflwyniad PowerPoint lle byddant yn edrych ar gefndir cwmni penodol ac ati, ethos y cwmni, a chlipiau o'u gwaith y byddant yn eu trafod â'r dosbarth. Ymysg yr enghreifftiau o gwmnïau perthnasol mae:<br><br>• Eclipse Theatre Company Un o gwmnïau theatr a theithiol mwyaf arloesol y DU a arweinir gan bobl Ddu.<br>• Home – Tara Theatre Cwmni y mae ei waith yn hyrwyddo Lleisiau o Dde Asia.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Home — Clean Break Cwmni a sefydlwyd gan ddwy fenyw yn y carchar a oedd yn credu mewn pŵer theatr i drawsnewid bywydau.<br>• Home - Chickenshed Cwmni sy'n rhoi cyfle i bawb berfformio.<br>• https://www.hijinx.org.uk/ Cwmni Cymreig ac un o brif gwmnïau Ewrop, sy'n creu perfformiadau eithriadol gydag artistiaid awtistig a/neu sydd ag anghenion addysgu.<br><br>• Dylai canolfannau sicrhau bod dysgwyr sy'n canolbwyntio ar Adran B yn cael pob cyfle i archwilio amrywiaeth o berfformiadau amrywiol, er enghraifft:<br><br>• Hamlet (Blue Apple Theatre) (youtube.com) Edrychwch ar y clip hwn a chanolbwyntiwch ar yr actor sy'n chwarae rhan Hamlet. Sut mae'n defnyddio symudiad, ystum a mynegiant wyneb i gyfleu'r cymeriad i gynulleidfa.<br>• Rose Ayling-Ellis' journey to signing Shakespeare \| Rose Ayling-Ellis: Signs for Change - BBC (youtube.com). Gwyliwch y clip hwn a chanolbwyntiwch ar yr actor sy'n chwarae Rosalind. Sut mae'n defnyddio symudiad, ystum a mynegiant wyneb i gyfleu'r cymeriad i gynulleidfa.<br><br>• The Little Big Things \| Exclusive Clip: Work of Heart \| National Theatre at Home (youtube.com).<br>Trafodwch y ffordd y mae'r actor sy'n chwarae Dr Graham yn defnyddio llais a symudiad i gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><td rowspan="2">Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ein bod am greu gwaith ystyrlon sy'n llywio ein dyfodol ein hunain a dyfodol pobl eraill mewn ffordd gadarnhaol ac ystyrlon.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>3.1.2<br><br><br><br>3.1.1</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio</td><td>Enghraifft<br><br>• Mae Uned 3 yn galluogi canolfannau i archwilio â dysgwyr yr amrywiaeth eang o gyfleoedd a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â drama, theatr a'r meysydd ehangach yn y celfyddydau<br><br>• Wrth edrych ar feysydd sgil penodol wrth archwilio adran A a B, gallai dysgwyr ymchwilio i'r union beth y mae'r swyddi hyn yn eu cynnwys. Er enghraifft, beth yw rôl dylunydd sain mewn cynhyrchiad; a yw'n llawrydd? Faint mae'n ei ennill? Gallai dysgwyr ymchwilio ymhellach i'r rolau hyn drwy edrych ar ddisgrifiadau swyddi mewn cyhoeddiadau fel 'The Stage' ac ymchwilio i wefannau fel: https://www.associationofsounddesigners.com/<br><br>• Gellid rhoi arweiniad hefyd ar yr amrywiaeth o rolau sy'n rhan o'r perfformiad, er enghraifft, pa lwybr y byddent yn ei gymryd i fod yn actor / dylunydd goleuo? Mae gwefan The National Theatre yn cynnwys amrywiaeth o glipiau byr yn ymchwilio i'r hyn y mae pob rôl (actor, cyfarwyddwr a dylunydd) yn ei olygu.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Wrth astudio'r testun gosod bydd cyfle hefyd i ystyried rolau llai adnabyddus sy'n rhan o gynhyrchiad llwyddiannus, er enghraifft, yn 'Pethe Brau', mae Amanda yn newid ei gwisg yn gyflym yng Ngolygfa 6.<br><br>• Wrth drafod sut gellid cyflawni hyn, gallai fod cyfle hefyd i ystyried rolau fel gwisgwr: [A Day in the Life of a Dresser \| National Theatre (youtube.com).]<br><br>• Wrth edrych ar waith cynhyrchu gan gwmnïau amrywiol yn Adran B, er enghraifft, National Theatre Wales, gallai dysgwyr ymchwilio i'r amrywiaeth o rolau oedd yn rhan o'r cwmni, fel swyddog ymgysylltu â chynulleidfaoedd a swyddog addysg Theatr Iolo. Gellir cysylltu â llawer o'r cwmnïau hyn a byddant yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rolau hyn.<br><br>• Mae Uned 3 hefyd yn rhoi cyfle i drafod rolau eraill, er enghraifft, pa lwybr y byddai dysgwyr yn ei archwilio pe byddai am fod yn ddramodydd, yn feirniad theatr neu weithio ym maes ffilm neu deledu.<br><br>• Mae'r celfyddydau hefyd yn cynnig sawl cyfle i ddysgwyr sy'n mwynhau TG, er enghraifft, datblygu cefnlenni digidol neu effeithiau arbennig ar gyfer theatr.<br><br>Nodwch: Yn aml, mae cwmnïau a chyn ddysgwyr wrth eu boddau yn ymweld â chanolfannau a rhoi rhagor o wybodaeth am rolau penodol. Dylid atgoffa |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dysgwyr y gall y sgiliau a ddysgir drwy astudio Drama gael effaith fawr ar amrywiaeth o swyddi a llwybrau gyrfa eraill. |

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrando | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am mai llythrennedd yw'r pasbort i bob math o gyfathrebu, sydd yn y pen draw yn gweithredu fel cyswllt â phob esblygiad dynol cydweithredol a datblygol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *3.1.3* | *Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | • Bydd Adran B yn canolbwyntio ar allu dysgwyr i wylio clip o theatr nad yw wedi'i weld o'r blaen, a gwrando arno hefyd. Bydd angen iddynt allu nodi meysydd fel tôn a thempo a'r ffordd y mae'r llais yn helpu i gyfleu'r cymeriad ar foment benodol yn y ddrama.<br><br>• I ddechrau, gallai canolfannau gyflwyno'r dasg hon drwy ganolbwyntio ar fonologau: Greatest Acting Monologues Of All Time PART 1 (youtube.com). Er bod y perfformiadau hyn o glipiau ffilm, gall roi llwybr i ddysgwyr ganolbwyntio arno, a gwrando ar amrywiaeth o donau lleisiol. Yna gallai canolfannau gyflwyno monologau o theatr, gan adeiladu i berfformiadau theatr sy'n cynnwys dau actor neu fwy, yn perfformio mewn amrywiaeth o arddulliau perfformio gwahanol, er enghraifft: Sioe gerdd, comedi, trasiedi ac ati (dylai canolfannau nodi y bydd dysgwyr yn cael clip o gynhyrchiad theatr yn yr arholiad terfynol). |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *3.1.2* | *Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | • Gallai dysgwyr wrando ar glipiau byr o ddarnau o Radio (mae detholiad eang ar BBC Sounds. Gallent ddadansoddi a gwerthuso'r ffordd y mae actorion yn defnyddio technegau lleisiol i greu cymeriad, cydberthnasoedd, naws, lleoliad ac ati. Gallent hefyd ddadansoddi a gwerthuso sut a pham defnyddir effeithiau sain. Yna gellid addasu'r ymarfer hwn, er enghraifft: Bydd partneriaid/grwpiau yn dewis darn byr o'u testun gosod ac yn ei recordio. Yna gallent wrando'n ôl ar y recordiad a thrafod a yw eu dewisiadau lleisiol yn effeithiol.<br><br>• Dylid rhoi cyfle i ddysgwyr ymchwilio a gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth/effeithiau sain. Gallent greu rhestr chwarae gan benderfynu ble a pham dylid chwarae effeithiau arbennig yn eu testun gosod ac i ba effaith.<br><br>• Wrth drafod eu syniadau/cysyniad ar gyfer yr opsiwn dylunio yn Adran A, dylai dysgwyr wrando ar amrywiaeth o syniadau creadigol. |
| Darllen | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*3.1.2* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | ***Enghraifft***<br><br>• Wrth ddarllen eu testun gosod yn y dosbarth neu baratoi darnau byr ar gyfer gwaith ymarferol, dylid annog dysgwyr i edrych yn ofalus ar strwythur y ddeialog, er enghraifft, sut mae'r dramodydd yn defnyddio atalnodi, hyd y frawddeg, pam mae'r dramodydd wedi cynnwys saib i rannu'r ddeialog?<br><br>• Gellir cysylltu'r arsylwadau hyn â gweithgareddau ymarferol, er enghraifft, bydd dysgwyr yn symud o amgylch y gofod yn darllen araith gan un o'r |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymeriadau a phob tro y bydd y dramodydd yn defnyddio atalnodi, bydd yn newid cyfeiriad. Mae hwn yn ymarfer defnyddiol i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd atalnodi mewn drama.<br><br>• Dylid annog dysgwyr i ddarllen amrywiaeth o ddramâu ar ben yr un y maent yn ei hastudio ar gyfer Uned 3. Mae'n ddefnyddiol i adrannau greu llyfrgell fach o ddramâu gan ddramodwyr dylanwadol, er enghraifft, 'Top Girls' gan Caryl Churchill, neu ddramâu gan Debbie Tucker Green, i alluogi dysgwyr i ddarganfod y ffyrdd gwahanol y mae dramodwyr yn defnyddio ac yn strwythuro deialog.<br><br>• 'Cutting It' gan Charlene James, sy'n delio ag anffurfio organau cenhedlu benywod a 'For Black Boys Who Have Considered Suicide When the Hue Gets too Heavy' sy'n delio â materion hil cyfoes. Mae dramâu sy'n delio â materion cyfoes yn galluogi dysgwyr i ystyried diben ehangach theatr y tu hwnt i ddifyrru cynulleidfa yn unig. Bydd annog dysgwyr i ddarllen dramâu mwy eang yn meithrin eu dealltwriaeth o strwythur dramâu ar gyfer Uned 3 ac yn rhoi mwy o ddewisiadau creadigol iddynt ar gyfer Uned 1 a 2.<br><br>• Dylid rhoi pob cyfle i ddysgwyr edrych ar hen bapurau a'r math o gwestiynau y gellid eu gofyn. Mae angen i ganolfannau annog dysgwyr i ddarllen y cwestiwn yn ofalus a chanolbwyntio ar yr union wybodaeth y mae'r cwestiwn yn gofyn amdani. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Siarad | *3.1.1* | *Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio* | • Drwy archwilio Uned 3 o'r cwrs yn ymarferol, bydd dysgwyr yn cael sawl cyfle i siarad. Gallai hyn ddigwydd drwy greu'n fyrfyfyr yn seiliedig ar y testun gosod neu drwy berfformio darnau byr. Dylid atgyfnerthu'r gwaith ymarferol bob amser drwy holi dysgwyr pam gwnaed dewisiadau perfformio penodol neu drwy eu galluogi i roi adborth llafar ar waith pobl eraill.<br><br>• Dylid annog dysgwyr hefyd i gyflwyno eu safbwyntiau'n llafar mewn ffordd fwy ffurfiol, er enghraifft, mewn parau, bydd dysgwyr yn cyflwyno cysyniad dylunio ar gyfer darn penodol. Caiff hyn ei gyflwyno i'r grŵp. Dylai'r cyflwyniad ganolbwyntio ar arddull/cysyniad, maes actio, lleoliad, set/propiau, lliw, gwead, goleuo a sain/cerddoriaeth. Dylent ganolbwyntio ar resymau clir yn esbonio pam maent wedi gwneud y dewisiadau dylunio hyn. |
| | *3.1.3* | *Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | • Bydd Adran B yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ganolbwyntio ar feysydd penodol a thrafod ac egluro eu syniadau yn seiliedig ar yr hyn maent wedi'i weld. O ddechrau'r cwrs, mae'n hanfodol bod pob dysgwr yn cael ei annog i fagu'r hyder i fynegi ei farn. Dylid annog dysgwyr yn gynnar i ymchwilio i glip o gynhyrchiad theatr gan ganolbwyntio'n benodol ar: actio, dylunio neu gyfarwyddo.<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos y clip ac yn trafod pam roedd y maes ffocws yn effeithiol/aneffeithiol yn eu barn nhw ac esbonio pa elfennau oedd yn ei wneud yn effeithiol/aneffeithiol. Dylid eu hannog hefyd i ateb |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cwestiynau gan y dosbarth am eu dewisiadau. Dylai canolfannau bwysleisio i ddysgwyr bod y ffocws ar eu syniadau a'u barn yn hytrach na ph'un a ydynt yn gywir neu'n anghywir. |
| Ysgrifennu | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *3.1.1* | *Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio* | • Wrth fynd i'r afael â'r broses o addysgu Uned 3, dylai'r pwyslais fod ar archwilio ymarferol, ymchwil a gweithgareddau a arweinir gan ddysgwyr, er enghraifft, cyflwyniadau. Fodd bynnag, dylai'r holl weithgareddau hyn arwain at well dealltwriaeth i ddysgwyr o'r arholiad ysgrifenedig terfynol. |
| | *3.1.2* | *Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | • Mae'n bwysig i weithgareddau ymarferol gael ffocws penodol yn gysylltiedig â chwestiynau arholiad, er enghraifft, rhoddir golygfa benodol i ddysgwyr a byddant yn penderfynu ar ddau brop y gallai cymeriad(au) eu defnyddio yn yr olygfa. Pan fyddant wedi archwilio'r olygfa yn ymarferol, gellid eu holi ar lafar:<br>  • Beth yw prop?<br>  • Disgrifiwch y propiau a ddefnyddiwyd gennych.<br>  • Sut gwnaeth y cymeriadau ddefnyddio'r prop yn yr olygfa?<br>• Ar ôl trafod gallent ysgrifennu eu hymatebion. Fel sesiwn lawn ar ddiwedd gwers ymarferol, gellid rhoi ymarfer ysgrifenedig llawn i ddysgwyr yn cynnwys cwestiynau tariff is. Gellid annog dysgwyr i gadw cofnod anffurfiol o'u syniadau drwy gydol y cwrs, gan gofnodi eu hamrywiaeth o syniadau.<br><br>• Drwy gydol y cwrs dylid rhoi amrywiaeth o gwestiynau i ddysgwyr yn seiliedig ar hen bapurau, |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3.1.3 | *Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | Deunyddiau Asesu Enghreifftiol presennol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o gwestiynau ac i gydnabod pwysigrwydd amseru.<br><br>• Fel gydag Adran A, gellid mynd i'r afael ag agweddau ar Adran B ar lafar i ddechrau, fodd bynnag, mae angen i ddysgwyr ymgyfarwyddo â'r math o gwestiynau a ofynnir iddynt yn yr arholiad (gweler y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol).<br><br>• Dylai canolfannau ddechrau drwy ganolbwyntio ar un cwestiwn ac arwain dysgwyr drwy'r math o wybodaeth y bydd angen iddynt ei rhoi.<br><br>• Dylai canolfannau sicrhau bod dysgwyr yn cael rhestr o derminoleg Drama allweddol y dylid ei defnyddio yn nwy adran yr arholiad. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn sicrhau y gellir cymhwyso meddwl rhesymegol yn hael wrth greu celfyddyd arloesol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau a phenderfyniadau gwybodus | *3.1.1*<br><br>*3.1.2* | *Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio*<br><br>*Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | Dylid defnyddio'r ymarfer hwn i atgoffa ynghylch themâu allweddol gyda'r testun gosod a ddewiswyd:<br>• Bydd dysgwyr yn nodi **un** thema/syniad o'r testun gosod a ddewiswyd a fyddai'n rhoi cyfle i ymchwilio ymhellach, er enghraifft, chwalu'r uned teulu (Pethe Brau), arbrofi ar anifeiliaid (Llewlanc), pwysau gan gyfoedion (Cysgu'n Brysur), bwlio (Bryniau'r Glas-Atgofion), pobl ifanc yn dwyn ceir (Wyneb).<br><br>• Mewn parau, gallent nodi cwestiynau sy'n gysylltiedig â thema a fyddai'n eu galluogi i ymchwilio i dystiolaeth ystadegol. Gallai enghraifft o hyn gynnwys:<br>  • Arbrofi ar anifeiliaid: Pa ganran o'r arbrofion ar anifeiliaid a gynhaliwyd yn 2000? Pa ganran o'r arbrofion ar anifeiliaid a gynhaliwyd yn 2023? Beth oedd y gwahaniaeth canrannol? Yn 2022 sawl anifail yr arbrofwyd arnynt? Pa ganran o'r nifer hwn oedd yn llygod, a faint oedd yn brimatiaid? Faint oedd yn foch? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng arian y llywodraeth a gaiff ei wario ar brojectau newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu neu wella opsiynau amgen nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid a faint o arian cyhoeddus sy'n mynd ar ariannu arbrofi ar anifeiliaid? |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
|---|---|---|---|
| | 3.1.3 | *Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | • Pan fydd y dysgwyr wedi casglu'r wybodaeth ystadegol berthnasol gallent ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft, drwy greu'n fyrfyfyr yn y dosbarth er mwyn gwella eu dealltwriaeth o gymeriad / thema.<br><br>• Gallent ysgrifennu monolog o safbwynt Prif Weithredwr cwmni, gan ddefnyddio'r data i esbonio pam mae arbrofi ar anifeiliaid yn hanfodol i ddatblygu meddyginiaeth. Gellid ysgrifennu'r monolog arall o safbwynt Magdalen gan ddefnyddio'r data i esbonio pam mae arbrofi ar anifeiliaid yn greulon ac yn ddiangen. Yna bydd y grŵp yn pleidleisio, yn seiliedig ar y dystiolaeth ystadegol a gyflwynir gan y ddau gymeriad, ar y safbwynt sydd fwyaf argyhoeddiadol.<br><br>• Mewn grwpiau gallent greu drama neu ffilm fer yn seiliedig ar y dystiolaeth ystadegol a gasglwyd ganddynt. Gallai'r perfformiad edrych ar safbwyntiau o blaid/yn erbyn arbrofi ar anifeiliaid yn seiliedig ar y dystiolaeth ystadegol a gasglwyd. Gallai'r ddrama gynnwys cerddoriaeth, dawns, meim ac ati (D.S.: Gallai hyn gynnig cyfleoedd i ddatblygu ymhellach ar gyfer gwaith Uned 1).<br><br>• Gellid defnyddio'r data a gasglwyd fel rhan o ddyluniad set, er enghraifft: Gallai'r arddull a ddewiswyd fod yn theatr epig, ar gyfer themâu penodol, gallai dysgwyr benderfynu defnyddio PowerPoint gan arddangos ystadegau allweddol i gyfosod y gweithredoedd/cymeriadau yn yr olygfa. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Mewn parau, rhoddir un o'r arddulliau perfformio canlynol i ddysgwyr ymchwilio iddo: theatr gerdd, theatr gorfforol, theatr mewn addysg neu theatr naturiolaidd.<br><br>• Byddant yn cael cyfres o gwestiynau ymchwilio i ymgysylltiad/niferoedd cynulleidfaoedd yn seiliedig ar arddulliau gwahanol o theatr, er enghraifft: Pa ganran o bobl ifanc 15-25 oed aeth i'r theatr yn 2023?<br><br>• Gallai dysgwyr edrych ar yr ystodau oedran gwahanol ac ymchwilio i ba ystod oedran oedd fwyaf/lleiaf tebygol o fynd i berfformiad theatr. Gallai dysgwyr hefyd edrych ar yr enghreifftiau canlynol:<br>  • Pa ganran o bobl o gefndiroedd ethnig gwahanol aeth i berfformiadau theatr?<br>  • Beth yw'r canran o bobl mewn ystodau economaidd-gymdeithasol gwahanol a aeth i gynyrchiadau theatr?<br>  • Beth yw'r ganran o ryweddau gwahanol (gan gynnwys anneuaidd, trawsryweddol ac ati) sy'n mynd i gynyrchiadau theatr?<br>  • Pa arddull perfformio sy'n apelio ag y ganran uchaf o gynulleidfa?<br><br>• Yn seiliedig ar eu hymchwil ystadegol, bydd dysgwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r grŵp, gan roi rhesymau yn seiliedig ar y data a'u hymchwiliadau i'r casgliadau a gawsant o'r data. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Dinasyddiaeth</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn galluogi gwelliant digidol i gefnogi'r broses o greu gwaith newydd, gan gynnal perthnasedd yn y dirwedd gyfoes hon sy'n newid yn barhaus.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br><br>3.1.2<br><br>3.1.3</td><td>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi</td><td>• Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint, a'r ffordd y mae'n cwmpasu dramâu a pherfformiadau i ddiogelu hawliau'r unigolyn.<br><br>• Dylid rhoi amrywiaeth o gynyrchiadau i ddysgwyr eu gwylio ar gyfer Adran B, gan amrywiaeth o actorion gwahanol. Dylid eu hannog i ystyried pob perfformiad ar ei rinwedd ei hun, gan ddeall yr anawsterau y mae'n rhaid i rai actorion eu goresgyn, er enghraifft,<br>  • 'Housemates' gan Tim Green/Hijinx Theatre Company/Sherman Theatre.<br>  • Taking Flight Theatre – Innovative and accessible theatre from Wales.<br>  • Cuttin' It | Interview with cast, Adelayo Adedayo & Tsion Habte (youtube.com).<br>  • Peter Pan gan Chicken Shed.<br><br>• Mae'n werth archwilio'r cwmnïau/cyfweliadau ymarfer hyn â dysgwyr i bwysleisio'r amrywiaeth eang o gwmnïau a'r amrywiaeth eang o faterion y gall theatr a drama fynd i'r afael â nhw.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | **Cyfeirnod y Fanyleb** | **Ymhelaethiad** | **Enghraifft** |
|---|---|---|---|
| Rhyngweithio a Chydweithio | *3.1.1*<br><br>*3.12*<br><br>*3.1.3* | *Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio*<br><br>*Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod*<br><br>*Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | • Gallai dysgwyr gadw cofnod digidol o syniadau a gaiff eu casglu o'u gwaith ymarferol dros gyfnod y cwrs. Gallai hyn fod ar ffurf blog unigol neu flog grŵp.<br><br>• Gan ddefnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol fel 'X', bydd dysgwyr yn edrych ar bostiadau gan ddramodwyr, fel Mark Ravenhill, sy'n rhannu amrywiaeth o ymarferion byr i ddramodwyr gan ganolbwyntio ar gymeriadau.<br><br>• Gallai dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i ffilmio rhaghysbyseb ar gyfer eu testun gosod, gan ganolbwyntio ar gymeriadau, adegau allweddol, themâu ac ati.<br><br>• Wrth adolygu clipiau ar gyfer Adran B, gallai dysgwyr gadw cofnod digidol o'u trafodaethau gan ddefnyddio'r cysyniad o Raglen Celfyddydau. |
| Cynhyrchu | **Cyfeirnod y Fanyleb**<br><br>*3.1.1*<br><br>*3.1.2* | **Ymhelaethiad**<br><br>*Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio*<br><br>*Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod* | **Enghraifft**<br><br>• Dylid annog dysgwyr i ymchwilio a defnyddio'r amrywiaeth eang o lwyfannau digidol i wella a datblygu eu syniadau dylunio eu hunain. Un enghraifft o hyn yw Matt Kizer's Online Light Lab ~ Plymouth State University (scenicandlighting.com). Gellid defnyddio hyn i archwilio'r golau, lliw gwahanol ac ati y gellid eu defnyddio mewn cynhyrchiad. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am ein bod yn gobeithio y gall gwaith dysgwyr heddiw ddatrys heriau yfory, ynghyd â chanfod posibiliadau nad oeddem yn gwybod eu bod yn bodoli.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Creadigrwydd ac Arloesedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br><br>3.1.2<br><br>3.1.3</td><td>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi</td><td>• Bydd rhan helaeth o lwyddiant y dysgwr yn Uned 3 yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth ond bydd hefyd yn seiliedig ar ei allu i ystyried meysydd penodol, er enghraifft, edrych ar ddylunio o safbwynt creadigol ac arloesol.<br><br>• Po fwyaf o ddylanwadau theatrig y caiff dysgwyr eu hamlygu iddynt, y mwyaf o effaith a gaiff ar eu meddwl creadigol eu hunain. Dylid annog dysgwyr i weld cynifer o berfformiadau byw â phosibl o ‘Theatr mewn Addysg’ mewn ysgolion i sioeau cerdd mawr. Mae cost mynd i'r theatr yn cyfyngu ar lawer o ddysgwyr, a gall ysgolion wneud cais am grantiau Ewch i Weld | Cyngor Celfyddydau Cymru i helpu â chost tocynnau a theithio. Caiff canolfannau eu hannog i ddefnyddio NT live, theatr ddigidol a'r amrywiaeth eang o glipiau theatr sydd ar gael.<br><br>• Dylid annog dysgwyr i gadw cofnod o syniadau ar gyfer dylunio/perfformiadau a allai ddylanwadu ar y syniadau dylunio ar gyfer y testun gosod a ddewiswyd ganddynt yn eu barn nhw.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><ul><li>Bydd llawer o gwmnïau proffesiynol, fel Splendid Productions – High performance theatre, yn llunio gweithdy/adnoddau yn benodol ar destun gosod penodol. Er y gall yr opsiwn hwn fod yn ddrud, mae gan golegau fel Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, amrywiaeth o gynyrchiadau, adnoddau a gweithdai y gallai dysgwyr eu defnyddio.</li><li>Bydd llawer o ymarferwyr theatr yn fodlon cael cyfarfod dros Zoom gyda dosbarth i drafod maes penodol o ddylunio/perfformiad.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr gan mai dim ond drwy'r dull hwn y gall canlyniad eu celfyddyd barhau i fod yn allgarol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>3.1.1<br><br>3.1.2</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod</td><td>Enghraifft<ul><li>Mae dwy adran Uned 3 yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i feddwl yn feirniadol a datrys problemau. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae:<ul><li>Rhoddir golygfa benodol i ddysgwyr a gofynnir iddynt ganolbwyntio ar faes actio penodol. Fel cyfarwyddwr, rhaid iddynt benderfynu ar ddau ddarn o set y gallent eu defnyddio i gyfleu lleoliad yr olygfa ynghyd ag awyrgylch yr olygfa i gynulleidfa.</li><li>Rhoddir y dasg i ddysgwyr greu dyluniad set ar gyfer drama gan ddefnyddio un o'r themâu drama</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| **Sgiliau Cyfannol** | | | |
|---|---|---|---|
| | | | allweddol. Sut byddant yn addasu dyluniad eu set i fodloni gofynion golygfa benodol?<br><br>• Bydd dysgwyr yn gwylio clip o gynhyrchiad theatr yn canolbwyntio ar gymeriad allweddol. Gofynnir iddynt ystyried pa elfennau o'r perfformiad allai ddylanwadu ar berfformiad cymeriad penodol, ar foment benodol, o'u testun gosod.<br><br>• Gofynnir i ddysgwyr ymchwilio a dod o hyd i berfformiad sy'n delio â genre penodol fel Theatr Gorfforol. Bydd angen iddynt ymchwilio i'r cwmni a dadansoddi a gwerthuso elfennau penodol o'r perfformiad, er enghraifft, symudiad, osgo, ystum, mynegiant wyneb. |
| | *3.1.3* | *Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi* | |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr>
<td rowspan="2">Cynllunio a Threfnu</td>
<td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'n hanfodol bod y broses o astudio crefft theatr yn gyfannol, gan sicrhau bod gwaith y sawl sydd y tu ôl i'r llenni yn cael ei werthfawrogi i'r un graddau â'r sawl sy'n ymgorffori'r cynnyrch perfformiad terfynol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>3.11<br><br>3.1.2<br><br>3.1.3</td>
<td>Ymhelaethiad<br><br>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi</td>
<td>Enghraifft<br><br>• Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod Uned 3 yn rhan hanfodol o'r arholiad ac er mai dyma ran olaf y cwrs, bydd angen iddynt baratoi ar ei chyfer drwy gydol y cwrs. Dylid ymgorffori gwaith ymarferol drwy gydol y cwrs a bydd angen i ddysgwyr sicrhau bod unrhyw waith ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ymarferol yn cael eu cwblhau.<br><br>• Bydd angen i ddysgwyr sicrhau bod gwaith ymarferol, fel cyflwyno golygfa benodol fel grŵp, yn cael ei drefnu a'i ymarfer.<br><br>• Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol, os bydd gwers benodol wedi'i neilltuo ar gyfer eu hymchwil ar faes penodol, eu bod yn gyfrifol am ymchwilio, cynllunio a chyflwyno'r gwaith i weddill y grŵp.</td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025.

<table>
<tr><td rowspan="3">Effeithiolrwydd Personol</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ei fod yn eu galluogi i ystyried eu cyfraniad unigol i'r canlyniadau terfynol, gan gatalyddu gwerthusiad a thwf personol sydd o fudd i bawb y maent yn cydweithio â nhw.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Effeithiolrwydd Personol yn yr addysgu a'r dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br><br>3.1.2<br><br>3.1.3</td><td>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br><br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br><br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi</td><td>• Dylid rhoi cyfle i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwaith ymarferol yn seiliedig ar y testun gosod a ddewiswyd ganddynt. Dylid annog pob dysgwr i gyflwyno a phwysleisio eu syniadau i'r dosbarth. Dylai pob dysgwr ddeall bod eu syniadau, eu barn a'u gwaith yn ddilys ac yn effeithiol.<br><br>• Dylid rhoi cyfle i bob dysgwr drin y testun gosod o safbwynt actor, dylunydd a chyfarwyddwr, drwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol ac ysgrifenedig.<br><br>• Dylid rhoi cyfle i bob dysgwr wylio o leiaf un darn o theatr fyw ac amrywiaeth o berfformiadau a chlipiau digidol. Dylent gael cyfle i drafod eu safbwyntiau a'u syniadau ar wahanol agweddau ar y perfformiad.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024



© WJEC CBAC Ltd.2025.